# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 574 · **Ebrill 2026** · £1


# Pleidlais Pawb




Ar 7 Mai eleni, byddwn fel cymuned yn pleidleisio mewn etholiad hanesyddol, un a fydd yn defnyddio system 'aml-aelod' i ethol cynrychiolwyr i Senedd Cymru. Mae Dyffryn Ogwen yn rhan o etholaeth fawr 'Bangor Conwy Môn' sydd yn ymestyn o Fôn i Fae Colwyn, gan gynnwys Bangor, Conwy, Llandudno a Dyffryn Conwy. Mae'n cyfuno cymunedau arfordirol, trefol a gwledig, ac yn cynnwys yr ynys gyfan a rhannau o Wynedd a Sir Ddinbych. Byddwn yn ethol chwe Aelod i gynrychioli'r etholaeth.

Bydd nifer o ddarllenwyr Llais Ogwan yn hen gyfarwydd â bwrw pleidlais ac wedi gwneud hynny'n gyson, â synnwyr o ddyletswydd. Cofiwn bod ein cyn-neiniau a'n cyn-deidiau wedi gorfod ymgyrchu am ddegawdau i sicrhau'r hawl a mynnu bod lleisiau pawb yn cyfrif. Mewn ychydig wythnosau bydd pobl ifanc 16 ac 17 oed Dyffryn Ogwen hefyd yn cael bwrw pleidlais. Tybed i ba raddau y byddan nhw'n gwneud hynny? Mae democratiaeth yn cael ei gynnal gan y rhai sy'n cymryd rhan a hawdd fyddai dadlau ei fod yn fregus pan fo llai na hanner poblogaeth Cymru'n pleidleisio – 46% yn etholiad diwethaf y Senedd. Estynnwyd yr hawl i bobl ifanc 16 ac 17 oed oherwydd gwelwyd bod pobl sy'n dechrau pleidleisio'n ifanc mewn gwledydd eraill yn llawer mwy tebygol o ddatblygu arferiad o bleidleisio trwy gydol eu bywyd. Mae hynny'n sicr o fod yn sail i ddemocratiaeth iach i'r dyfodol.

Mae ymchwil yn dangos bod pobl ifanc yn fwy tebygol o bleidleisio pan fyddan nhw'n cael eu cefnogi i ddod o hyd i wybodaeth sy'n eu helpu i fod yn hyderus ynghylch pleidleisio. Yn aml maent yn dweud bod y gefnogaeth honno'n dod gan yr oedolion o'u cwmpas. Nid dylanwadu ar eu barn na dweud wrth bobl ifanc sut i bleidleisio mae hyn yn ei olygu. Yn hytrach, rhoi'r hyder a'r wybodaeth iddyn nhw i'w galluogi i wneud penderfyniad eu hunain. Y math o arweiniad ymarferol a roddodd cenedlaethau hŷn i'w gilydd ers talwm: esbonio'n syml sut mae'r broses yn gweithio, cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod, dangos y cysylltiad rhwng gwleidyddiaeth a bywyd bob dydd. Caniatáu i bobl ifanc ddod i benderfyniad drostynt eu hunain sydd angen, a hynny (yn bwysig iawn yn yr oes sydd ohoni) ar sail gwybodaeth o ffynonellau dibynadwy.


Oes person ifanc yn eich teulu chi y medrwch eu helpu i deimlo'n hyderus ynghylch pleidleisio mis Mai? I wneud iddynt sylweddoli ei bod yr un mor bwysig iddyn nhw lywio polisi Llywodraeth nesaf Cymru, a phenderfyniadau fydd yn cael effaith uniongyrchol ar eu bywydau – trafnidiaeth i'r ysgol/coleg, prisiau tai lleol, cyfleoedd gwaith ac ati.

Mae nifer o bobl ifanc yr ardal eisoes yn ystyried sut i bleidleisio, ac maent wedi rhannu eu sylwadau ynghylch beth ddylai Llywodraeth nesa Cymru fod yn canolbwyntio arno (ewch i dudalen 4).









# Llais Ogwan


## Rhif 574
**Ebrill 2026**



**Panel Golygyddol**
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

**Swyddogion**
**CADEIRYDD**
Carwyn Meredydd
carwynian@hotmail.com

**Trefnydd hysbysebion**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis


Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Fflur Roberts**.

Y golygydd ym mis **Mai** fydd **Lowri Roberts**, 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth, Bangor, LL57 4NY.
01248 600490
E-bost: l.roberts11@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 25 Ebrill** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 14 Mai** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Dyddiadur y Dyffryn

**Ebrill**

18 Bore Coffi Capel Jerusalem yn y Festri. 10.00 – 12.00.

20 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.

27 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.

28 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**Mai**

07 Etholiad Senedd Cymru. 7.00yb – 10.00yh.

08 Coroni Teulu Brenhinol Carnifal Bethesda. Ysgol Dyffryn Ogwen am 6.00.

09 Bore Coffi Cymorth Cristnogol. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.

11 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.

12 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

14 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr uchaf Cefnfaes am 6.45.

16 Carnifal Bethesda.

18 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.

26 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £50.00 | Emily Roberts er cof am Gwyndaf Roberts. |
| £9.00 | 28 Ffordd Llanllechid, Rachub. |
| £4.00 | 5 Bron Arfon, Rachub. |
| £5.00 | Huw Davies, Gerlan. |
| £20.00 | Er cof annwyl am Mair Taylor oddi wrth y teulu. |

***Diolch yn fawr***

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Ebrill**

| | |
|---|---|
| £30.00 | (142) Lowri Williams, Caernarfon. |
| £20.00 | (192) Carys Dafydd, Braichmelyn. |
| £10.00 | (20) Andre Lomozik, Bethesda. |
| £5.00 | (99) Dilys Parry, Rhiwlas. |

***Diolch yn fawr***

***Newyddion Mai i'w dderbyn erbyn dydd Sadwrn, 25 Ebrill. Dyddiad cyhoeddi 14 Mai.***



***Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen? Cysylltwch a Neville Hughes - nev_hughes@btinternet.com***


Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru


***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***

# Llythyr

Annwyl Ddarllenydd,

Ar hyn o bryd mae'r asiantaeth fapio, yr Arolwg Ordnans, sydd â'i swyddfa yn Southampton, yn mynnu gosod enwau Saesneg yn unig ar leoedd sydd ag enwau Cymraeg, e.e. *The Mushroom Garden* (Coed Cerrig y Frân) yn Nant Ffrancon; *Heather Terrace Path* (Llwybr Gwregys) ar ochr Tryfan, a gosod enwau Saesneg ochr yn ochr ag enwau Cymraeg, e.e. *Cwm Cneifion/The Nameless Cwm* uwchlaw Llyn Idwal; *Bala Lake/Llyn Tegid*; *Snowdon/Yr Wyddfa.*

Mae'r polisi presennol yn cyfrannu i'r broses o ddisodli enwau Cymraeg gan enwau Saesneg, a gofynnwn yn garedig i chi gefnogi ein cais i'r Arolwg Ordnans newid ei bolisi.

Gallech, os dymunwch, ddefnyddio'r neges barod yma i'w hanfon at jonathan.holmes@os.uk (Mae'r asiantaeth yn derbyn gohebiaeth Gymraeg.)

Yn gywir,
Emyr Roberts
Rhys Parry
Ieuan Wyn
*Ymgyrch Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg*

Annwyl Jonathan Holmes,

Dymunaf gefnogi'r cais i'r Arolwg Ordnans newid ei bolisi presennol ar ddefnyddio enwau lleoedd tirweddol (daearyddol) ar ei fapiau yng Nghymru.

Rwyf o'r farn na ddylai mapiau'r asiantaeth osod enwau Saesneg yn unig ar leoedd sydd ag enwau Cymraeg hanesyddol, na gosod enwau Saesneg ochr yn ochr ag enwau Cymraeg.

Mae'r polisi presennol yn cyfrannu i'r broses o ddisodli enwau lleoedd Cymraeg hanesyddol gan enwau Saesneg.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

# Calendr Llais Ogwan 2027

Mae'r gwaith o lunio Calendr Llais Ogwan ar gyfer 2027 wedi cychwyn. Pe baech yn dymuno tynnu sylw at ddyddiad digwyddiad arbennig, lleol yn y Calendr mae croeso i chi anfon y manylion at Gareth Llwyd (garethllwyd197@btinternet.com) cyn diwedd mis Mehefin ar yr hwyraf, os gwelwch yn dda.

Lluniau ar gyfer Calendr 2027 i mewn cyn **31 Mai 2026**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.



**Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda**

*Cofiwch :*

- *nodi lle y cymerwyd y llun, rhoi teitl i'r llun, a cynnwys eich cyferiad a'ch enw*

Anfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2027@outlook.com

**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**


**CHRIS GRIFFITHS CYF**

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**

**18 Carreg Felin**
**Llandegfan**
**Ynys Môn**
**LL59 5YB**

**☎ 01248 713 369**
**neu 07813 455653**



**Mark Davies**
07447804110

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

**mark@mdcaravans.cymru**

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Cyrsiau Byr a Datblygiad Proffesiynol
Short Courses and Professional Development

**Ystyried dysgu rhywbeth newydd?**

- Dysgu Cymunedol
- Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol
- Cyrsiau pwrpasol i fusnesau
- Darlithoedd cyhoeddus

**Cysylltwch!**

cyrsiaubyr@bangor.ac.uk
01248 382 875

https://www.bangor.ac.uk/cy/cyrsiau-byr-a-dpp

# Pobl Ifanc yn Camu i'r Bocs Pleidleisio

Mae nifer o bobl ifanc ardal Dyffryn Ogwen eisoes wedi cychwyn ystyried beth fydden nhw'n hoffi gweld Llywodraeth newydd Cymru'n ei flaenoriaethu …

Gwella rhwydwaith bysus gogledd Cymru oherwydd bod y gwasanaeth wedi dirywio ers blynyddoedd. I gymuned fel Bethesda mae bws dibynadwy i Fangor neu Caernarfon yn hanfodol ar gyfer mynd i'r gwaith, ysgol ne goleg, meddygfa neu ysbyty, a bywyd bob dydd. Mae hynny'n effeithio ar bobl ifanc, yr henoed, a theuluoedd incwm isel. Heb drafnidiaeth gyhoeddus addas mae pobl heb gar yn cael eu hynysu. * **Mi fasa bws o Gerlan yn handi!!***

Llygredd afonydd a môr, achos mae nifer o achosion o ollwng 'sewage' ar draws Cymru a Lloegr. Mi ddylia Dŵr Cymru fod atebol. Mae cymunedau sy'n byw, yn nofio, ac yn pysgota yn ein afonydd ni yn haeddu gwell.

**Liwsi**

Ffocws ar leihau y baich ariannol a'r ddyled o gael mynediad at addysg bellach.

Gwella amseroedd aros ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru, yn enwedig lleihau rhestrau aros gweld arbenigwyr a chael y gofal sydd ei angen wedyn.

**Ela**

Mi fyddai'n gyrru cyn bo hir felly, gwella cyflwr y ffyrdd, ma nhw'n ddi-galon.

Dwi'n gobeithio gwneud cwrs amaeth flwyddyn nesa a dwi'n gobeithio bydd y llywodraeth nesa yn rhoi mwy o gefnogaeth i amaethwyr i gynhyrchu bwyd, yn hytrach na tynnu tir allan o gynhyrchiant.

**Math**

Lleihau baich dyled myfyrwyr a helpu costau byw yn y brifysgol. Mwy o bwyslais ar opsiynau eraill fel prentisiaethau, fel bod pobl ddim yn teimlo bod rhaid mynd i brifysgol a mynd i ddyled.

Cefnogaeth i'r iaith Gymraeg ac annog plant ysgolion cynradd a blynyddoedd cyntaf ysgolion uwchradd i siarad Cymraeg, achos dwi'n meddwl bod lot mwy o bobl ifanc yn siarad Saesneg yn yr ysgol rwan nac oedd pan o'n i yr un oedran.

**Lowri**

Darparu gwell cyfleusterau i bobl ifanc fynd i dreulio amser hefo'u ffrindia, rhywle sydd ddim yn dafarn, a chael clwb ieuenctid i bobl ifanc hŷn.

**Dafydd**






Mwy o sylw mewn ysgolion i faterion megis deall iechyd meddwl, bywyd a realaeth y byd, addysg wleidyddol a sut mae'r system yn gweithio.

Taclo tlodi plant fel bod pawb yn cael cyfle teg i ffynnu fel person ifanc.

Polisi sy'n arwain at greu mwy o swyddi lleol rhan-amser i bobl ifanc 16 oed, i ni fedru bod yn fwy annibynnol yn ein cymunedau a chael profiadau i'w rhoi ar CV ar gyfer ein dyfodol.

Gwneud llawer mwy i hybu'r Gymraeg a chreu mwy o gyfleoedd go iawn i ni ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd – nid dim ond yn yr ysgol, ond mewn gwaith, cyfryngau a bywyd cymdeithasol.

**Gwenno**

Mwy o arian i ysgolion uwchradd achos dwi'n teimlo bod Ysgol Dyffryn Ogwen, er enghraifft yn cael ei than-gyllido.

Newid trefn ffioedd dysgu a benthyciadau i fyfyrwyr achos mae'r system fel ac y mae hi yn hurt. Ma pobl ifanc yn gorfod talu miloedd yn ôl a mae eu dyledion yn cynyddu achos bod llog yn cael ei ychwanegu.

**Gwen**

Hawl i fyw adra, hynny ydi, bod pobl ifanc yn gallu fforddio prynu tai.

Mwy o bwerau i fynnu bod y Gymraeg yn cael statws cyfartal go iawn.

**Mari**

# Colofn Chwedl a Choel: Rhifyn 12

## Gan **Howard Huws**

Rhagor am fwganod, rŵan. 'Roedd yn arfer gan rai merched ddweud ffortiwn: dyna nain Phyllis Margaret yng Ngharneddi, er enghraifft, a hogan o deulu Lock yn Llandygái hefyd. Daeth honno un tro i ddweud ffortiwn merched yn Rachub, ac ar y diwedd dyma hi'n dweud ei bod yn gweld hen wraig yn yr ystafell, ers y daeth hi yno gyntaf. Gofynnwyd iddi sut un oedd yr hen wraig, a'r hon a ddisgrifiodd i'r dim oedd y ddynes fu'n byw yno ar un adeg, ond a oedd wedi hen farw.

Ag aros yn y cyffiniau hynny, aeth dynes leol a'i nith fach 5 oed efo hi i fynwent Llanllechid, a dyma'r hogan yn codi llaw ar rywun, er nad oedd neb arall i'w weld yno. O ofyn iddi ar bwy oedd hi'n codi'i llaw, dywedodd ei bod yn ei chodi ar ddynes. Ond ni allai'r oedolion weld neb.



I Lasinfryn, a hanes y Ladi Wen. Yr hanes oedd i ferch fferm Glasinfryn Fawr ddyweddïo efo hogyn cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ond i hwnnw gefnu arni. Yn ei thrallod, mi gollodd ei phwyll ac fe'i taflodd ei hun o ffenestr y groglofft, gan farw o'i hanafiadau. Wedi hynny byddai gwraig y tŷ yn ei gweld yno, a byddai drafft i'w glywed wrth i'r ysbryd gerdded heibio. Enwyd yr ysbryd yn Ladi Wen, ac aeth pobl i osgoi mynd heibio i'r lle gyda'r nos. Nid arhosai pobl yno gyda'r nos chwaith, fwy nag yn unrhyw dŷ arall y tybid fod bwgan yno. Un chwedl oedd i'r ferch druan gael ei chymryd yr holl ffordd i Drawsfynydd i'w chladdu, y tu cefn i Eglwys Fadryn yno.

Un a ddigwyddodd gerdded heibio i Lasinfryn Fawr ryw gyda'r nos pan yn 16 oed oedd Jo Hughes, a dychrynodd o weld rhywbeth tebyg i ddau ben dynol wedi'u gosod yno. Ond dyma fo'n ymwroli ac yn mentro ymlaen: a beth oedd yno ond dwy belen wedi'u gosod ar bennau pileri carreg giât mochyn. Roedd rhywun wedi'u canfod, eu paentio, a'u gosod yno, o ran sbort.

Credid bod ysbryd yn y gerddi dros y ffordd i gapel Glasinfryn am fod rhywun wedi lladd ei hun yno. Nid oedd neb am drin yr ardd honno. Byngalo sydd yno heddiw.

Gwelwyd "Ladi Wen" neu rywbeth tebyg gan ddau ddyn lleol yn gyrru rhwng Llys y Gwynt a Glasinfryn gyda'r nos. Meddai gyrrwr y cerbyd, flynyddoedd wedyn: "Roeddwn i'n dreifio ar hyd y lôn yma a gwelais eneth ifanc yn gwisgo dillad golau yn sefyll ar ganol y lôn. Nes i frecio'n galed, ond roedd hi mor agos roeddwn i'n siŵr fy mod i wedi ei tharo hi. Pan es i allan i weld, 'doedd dim golwg o neb o gwmpas ac roedd y car yn iawn. S'gen i ddim syniad pwy oedd hi. Os fasa Duw yn fy lladd i rŵan, roedd hi'n sefyll ar ganol y lôn".

Digwyddodd hyn rywbryd rhwng tua 1966 a 1974. Mae yna Bont Ladi Wen ar allt Nant y Garth, rhwng Pentir a'r Faenol hefyd.

Fel y crybwyllwyd o'r blaen, nid bwgan, pob bwgan, ychwaith. Roedd un cymeriad yn ochr Glasinfryn efo'r llysenw Wil ... wel, roedd o'n tueddu i faeddu ei ddillad pob tro y meddwai, ddywedwn ni hynny. Un tro, a Wil yn dychwelyd o'r Faenol Arms ym Mhentir, dyma Preis y clochydd yn cuddio mewn bedd newydd ei agor yn y fynwent, ac wrth i Wil ddod heibio, dyma Preis yn galw: "Oes gennych chi fatsian? Mae'r gannwyll wedi diffodd yn y bedd." Ni redodd Wil erioed cyn gyflymed, na chynt nac wedyn.

Ydi, mae math o ddoniolwch tywyll yn nodweddu'r ardaloedd chwarelyddol. Dyma ymgymerwr yn byw yn Nhregarth yn gweld gŵr lleol yn feddw gaib, ac yn penderfynu mynd ag o adref. Dyma fo'n ei lwytho i gefn yr hers, ac yn gyrru at gartref y dyn. Curwyd y drws, a dyma fam y meddwyn yn ateb. "Dwi wedi dod â'ch mab chi adref", meddai'r ymgymerwr. "Be' ti'n ei feddwl?", meddai honno. A dyma fo'n ei harwain hi i lawr at y lôn. Pan welodd hi'r hers yno, dyma hi'n llewygu'n glwt ar lawr.

Os gwyddoch chi am hanes bwgan neu ysbryd o ryw fath, rhowch wybod i Howard! Byddai'n falch iawn o glywed gennych. Gallwch gysylltu gyda Howard trwy anfon neges ato yn cyfarchiad@yahoo.co.uk neu ei ffonio ar 07748 495537.

# YSGOL TREGARTH

### Eisteddfod Ysgol

Roedd cynnwrf mawr yn yr ysgol pan gynhaliwyd ein heisteddfod gyntaf. Bu llawer o baratoi at y diwrnod gydag ymarferion a rhagbrofion cyn cystadlu brwd drwy'r dydd. Cafwyd amrywiaeth o gystadlaethau yn cynnwys canu, llefaru, unawd offerynnol, dawnsio a chôr. Uchafbwynt y prynhawn oedd seremoni'r cadeirio ac enillwyd y gadair gan William, blwyddyn 6. Rhaid diolch i'r plant am fod mor weithgar yn cynrychioli eu tai - roedd y marciau yn agos iawn ond Tŷ Helygen enillodd yr Eisteddfod eleni. Diolch arbennig i Mrs Llinos Williams a ddaeth yn ôl atom am y diwrnod fel beirniad, diolch iddi am ei gwaith. Mae pawb yn edrych ymlaen at flwyddyn nesaf yn barod!



### Trip Yr Aran

Yn ddiweddar aeth dosbarth yr Aran ar ymweliad i Gastell Biwmares fel rhan o'u themâu dosbarth. Roedd yr ymweliad yn brofiad addysgol gwerthfawr a diddorol, gan ei fod wedi dod â'r hanes yn fyw. Llwyddodd y dysgwyr i greu pamffled ac adroddiad manwl am y castell ar ôl yr ymweliad gan gyfuno gwybodaeth academaidd gyda'u profiadau personol. Roedd y dysgwyr hefyd wrth eu boddau yn creu sgript ar gyfer cyfweliad gan ddefnyddio sgrin werdd i chwarae rôl tywysogion a thywysogesau.



### Gala Nofio

Cafwyd llwyddiant arbennig gan blant Tregarth yn y Gala Nofio eleni wrth iddynt gipio'r fuddugoliaeth am y drydedd flwyddyn yn olynol. Bu'r disgyblion yn cystadlu'n frwd ac yn dangos ymdrech, dyfalbarhad a gwaith tîm rhagorol drwy gydol y gala. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran ar gyflawniad arbennig iawn!

### Bingo Pasg

Diolch yn fawr i griw gweithgar y gymdeithas rhieni ac athrawon am drefnu bingo Pasg llwyddiannus. Roedd y neuadd yn llawn o deulu a ffrindiau'r ysgol a phawb yn awyddus i ennill yr wyau Pasg. Diolch i bawb fu'n trefnu ac i'r rhai ddaeth draw i gefnogi'r noson.

### Diwrnod trwyn coch

Bu criw gweithgar y Cyngor Ysbrydol yn brysur yn trefnu digwyddiadau i godi arian ar gyfer elusen 'Comic Relief'. Penderfynwyd gofyn i'r plant wisgo pyjamas a dod i'r ysgol gyda gwallt gwirion. Roedd yna gystadleuaeth dweud jôcs a sŵn chwerthin i'w glywed yn y dosbarthiadau.

### Eisteddfod yr Urdd

Cafwyd cryn lwyddiant yn Eisteddfod Cylch yr Urdd a nifer fawr o blant yn cynrychioli'r ysgol mewn 10 cystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr iawn i Guto am ddod yn 3ydd ar yr unawd bl.2 ac iau, Poppy am ddod yn 3ydd a Greta am ddod yn 1af ar yr unawd bl.3 a 4. Daeth parti llefaru Yr Elen yn 2il a pharti'r Garn yn 3ydd a'r côr yn 2il. Diolch i chi i gyd am gynrychioli'r ysgol mor arbennig a daliwch ati i fwynhau canu a chystadlu.

Aeth Greta yn ei blaen i'r Eisteddfod Sir ym Mangor yr wythnos ganlynol a daeth yn 3ydd ar yr unawd bl.3 a 4. Llongyfarchiadau mawr i ti Greta!






### Diwrnod y Llyfr

Ar Ddiwrnod y Llyfr eleni, gwisgodd y plant fel eu hoff gymeriadau o lyfrau. Yn ystod y dydd, cafwyd amryw o gyfleoedd i ddathlu'r cariad at ddarllen wrth wneud gweithgareddau hwyliog yn ymwneud â darllen a mynegi barn ar straeon byrion.

Hefyd roedd yn braf gweld syniad gwych y Cyngor Ysgol yn dod yn fyw, wrth iddynt gynnal digwyddiad cyfnewid llyfrau, lle cafodd y plant ddod â hen lyfrau a'u cyfnewid am rai newydd. Diwrnod brwdfrydig a llwyddiannus iawn!

### Cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi cafwyd cyngerdd bendigedig yn neuadd yr ysgol gyda nifer o rieni, teulu a ffrindiau'r ysgol wedi dod atom i ddathlu. Cafwyd blas o uchafbwyntiau'r Eisteddfod ysgol ac Eisteddfod yr Urdd yn ystod y prynhawn ac roedd y neuadd yn llawn o sŵn canu a llefaru gwych. Diolch i bawb ddaeth draw i gefnogi'r plant.

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Profedigaeth**
Pob cydymdeimlad gyda Ffion a Dominic Kervegant a'r teulu, Tan Dderwen ar eu profedigaeth ddiweddar o golli modryb i Ffion, sef Llinos Clwyd Davies o Lanrug. Roedd yn Gyn Is-Geidwad yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ac yn ferch i'r diweddar Barchedig J. P Davies a'i briod, Porthmadog ac yn chwaer i Gwawr.

Ar 26 Chwefror bu farw Elizabeth Catherine Hughes, 41 Bro Syr Ifor. Roedd yn briod â'r diweddar Bryan, yn fam i Iorwerth a Raymond, nain i Sean a Maddison ac yn chwaer i Richard a'r diweddar Dafydd Lloyd. Bu ei hangladd ym Mynwent Sant Cedol, Pentir ar 13 Mawrth, a chydymdeimlwn gyda chi fel teulu.

Trist yw cofnodi marwolaeth Barbara Mary Jones, 1 Erw Faen, Tregarth fu farw yn 76 ac yn frawychus o sydyn ar 10 Fawrth. Roedd Barbara yn briod â'r diweddar Meirion ac anfonwn ein cydymdeimlad â'i phlant Richard, Steve ac Elinor, ei wyrion a'i wyresau. Bu'r angladd yn Amlosgfa, Bangor ar 8 Ebrill.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Arthur Williams, Y Garreg Wen, Tal y Cae , am ddod yn hen daid i Now Meilir Roberts gafodd ei eni ar 5 Ionawr, i Cadi a Meilir, Glan Ffrydlas. Mae Cadi yn ferch i Rhys ac yn wyres i Arthur a'r diweddar Carys Williams. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

**Yn yr ysbyty**
Anfonwn ein cofion at Valery Jones, Valwyn, Dob sydd yn ôl yn Ysbyty Gwynedd wedi cyfnod yn Ysbyty Eryri. Pob gwellhad i chi Val.

Braf iawn clywed fod Beryl Brown, Ffordd Tanrhiw adre wedi cyfnod yn Plas Ogwen, Bethesda.

Mae Mona Jones, Ffordd Tanrhiw bellach yn Plas Ogwen wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, Caernarfon. Cofion cynnes atoch chithau Mona.

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**
Nos Lun, 2 Mawrth, bu aelodau'r gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Clwb Rygbi Bethesda. Diolch o galon i Wayne a'r staff am baratoi lluniaeth hyfryd ar ein cyfer ac i Hogia'r Bonc ddaeth draw i'n difyrru. Noswaith ardderchog fel arfer.

Nos Lun, 13 Ebrill, bydd un o ferched y pentref yn dod i sgwrsio ar y testun 'Merched Dyffryn Ogwen,' sef Shan Robinson, Ffordd Tanrhiw. Edrychwn ymlaen yn fawr i'w chroesawu, ac i groesawu yr aelodau ac unrhyw un arall a ddymunai droi mewn i Festri Capel Shiloh Newydd am 19:30.

**Actor o fri**
Llongyfarchiadau i Osian Emlyn Williams o Cilfodan, Carneddi, am gael i ddewis i actio yn y gyfres 'Under Salt Marsh'. Mae Osian yn fab i Bleddyn ac Angharad Williams ac yn ŵyr i Angharad a Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw. Ardderchog Osian, rydan ni yn falch iawn o dy lwyddiant.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Nia Wyn Jones a Nia Jones Williams ar achlysur eu priodas yn Mhlas Maenan ger Llanrwst ar 15 Mawrth. Byddant yn cartrefu yn Rachub. Mae Nia Wyn Jones yn ferch i Euronwy a'r diweddar Gareth Jones, Craig y Pandy, Tregarth. Pob dymuniad da i'r ddwy Nia.



## Shiloh Newydd

Nos Iau Cablyd, 2 Ebrill, bu gwasanaeth yng nghwmni ein gweinidog, Dr Ian Morris. Diolch iddo am ei genadwri. Gwasanaeth am 17:00 o'r gloch oni nodir yn wahanol:

26 Ebrill – Dr Ian Morris (cymun)
3 Mai – Gwenda Richards, Caernarfon
10 Mai – Sul Cymorth Cristnogol, Rhian Evans- Hill, Rhiwlas
17 Mai – Dr Jennie Hurd, Llanymynech
24 Mai – Dr Ian Morris (cymun)
31 Mai – R.O Jones, Gaerwen

**Y Croeshoeliad gan Stainer**
Nos Wener 27 Mawrth daeth Côr Cymysg Dyffryn Conwy dan arweiniad Trystan Lewis i Shiloh Newydd i gyflwyno yr oratorio o waith y cyfansoddwr Sir John Stainer 'Y Croeshoeliad '. Yr organydd oedd Martin Brown a'r unawdwyr Alwyn Evans o Fachynlleth, Gwilym Bryniog Davies o Felin y Coed a'r arweinydd ac unawdydd Trystan Lewis o Lanfairtalhaiarn ger Abergele.

Cafwyd noson ardderchog yng nghapel hardd Shiloh Newydd a phawb yno wedi gwir fwynhau a'r noson wedi eu paratoi at Ŵyl y Pasg. Biti garw na fyddai mwy o gynulleidfa i werthfawrogi'r Côr, yr arweinydd, yr organydd a'r unawdwyr cwbl broffesiynol. Roedd yn wir noson i'w chofio. Diolch iddynt oll am gyflwyno gwaith ardderchog gyda'r fath sglein!

**Bedydd**
Fel rhan o'n gwaith addysg grefyddol, mae dosbarth Elidir Fawr wedi bod yn brysur yn dysgu mwy am sut mae'r Eglwys yn bedyddio babanod ac roedd pawb eisiau cael profi bedydd go iawn. Felly, i ffwrdd â ni i'r Eglwys at y Parchedig Sara Roberts i gynnal ffug fedydd ar gyfer Ned, ein babi bach. Yn ôl yn yr ysgol cafwyd te bedydd i nodi'r achlysur a'r plant eu hunain wedi paratoi'r bwyd. Diolch yn fawr i'r Parchedig Sara Roberts a Rosemary Williams am wneud y bore yn un cofiadwy i bawb.



**Diwrnod Iechyd a Lles**
Ar Ddydd Iau, 26 Mawrth cynhaliwyd Diwrnod Iechyd a Lles gan y Cyngor Iechyd a Lles. Cafodd y dysgwyr gyfle i ddod i'r ysgol mewn dillad addysg gorfforol a chymryd rhan yn y Cwrs Heriau Hwyl, a oedd wedi'i gynllunio i hybu iechyd corfforol, lles, a gwaith tîm.

Yn ystod y diwrnod, dysgwyd am bwysigrwydd iechyd a lles personol, a chafwyd strategaethau ymarferol i'w meithrin. Roedd y gweithgareddau'n gymysgedd o hwyl, her, a dysgu, gan roi cyfle i'r disgyblion weithio gyda'i gilydd tra'n cael profiad cadarnhaol a phositif o ran lles. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant amlwg, gan godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cadw'n iach a chymryd gofal am les corfforol a meddyliol.

# CHWILAIR

## CYN ATHRAWON YSGOL DYFFRYN OGWEN

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | M | O | I | R | A | M | U | I | R | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C |
| M | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M |
| D | S | I | D | R | I | S | W | I | L | L | I | A | M | S | W | S | R | H | U |
| Z | J | E | M | X | R | O | Y | O | W | E | N | V | A | D | E | D | O | N | A |
| P | O | A | L | U | Q | U | S | O | F | R | P | Y | Q | N | Z | G | N | R | H |
| C | H | U | M | W | W | N | O | Y | R | I | A | S | O | Z | U | T | A | F | D |
| X | N | U | P | W | Y | R | H | C | Q | H | W | J | E | H | O | Y | L | E | E |
| S | E | G | E | O | M | N | H | E | P | T | S | T | C | B | B | C | D | U | U |
| M | L | J | P | L | T | M | P | I | V | Y | V | D | C | B | B | F | P | R | F |
| A | W | O | G | J | V | I | I | H | H | R | R | X | I | M | H | T | A | T | O |
| I | Y | S | K | O | P | W | R | R | U | C | M | K | C | B | O | R | R | S | C |
| L | N | X | V | R | Y | H | K | S | T | G | M | R | E | F | Y | J | D | E | D |
| L | H | Z | H | B | C | N | W | O | S | C | H | R | A | I | X | N | O | N | I |
| I | U | L | X | J | A | J | M | B | W | T | E | E | X | M | D | X | E | O | K |
| W | G | F | U | R | P | C | Q | Y | O | I | L | F | S | E | R | Z | Q | J | R |
| I | H | O | F | **Y** | **R** | **R** | **A** | **P** | **N** | **Y** | **L** | **N** | **E** | **W** | **G** | **W** | C | E | T |
| A | E | D | R | E | T | R | A | C | C | M | L | I | C | E | C | E | J | A | G |
| N | S | W | Z | O | H | R | A | H | A | L | I | S | L | Z | E | B | E | N | A |
| E | J | K | J | C | L | N | L | R | V | O | G | J | P | W | P | G | S | O | O |
| M | W | J | J | Q | U | L | F | S | V | T | X | E | U | G | H | S | L | M | Z |

Yn y Chwilair mis yma mae enwau deuddeg o gyn athrawon Ysgol Dyffryn Ogwen i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH ayb. yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Pob hwyl gyda'r Chwilair mis yma a diolch i Dilwyn Pritchard, Rachub, am awgrymu'r testun. Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 24 Ebrill. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais**, **bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn**.

**Dyma atebion Chwilair Mawrth**: Dan Amheuaeth; Dan Bwysau; Dan Gysgod y coed; Dan Ddylanwad; Dan ei Adain; Dan Ewyn y Don; Dan Fygythiad; Dan Gamsyniad; Dan Gwmwl Du; Dan Llaw'r Diafol; Dan Y Dŵr; Dan yr Wyneb.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir**: Rosemary Williams, Tregarth; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Judith Hughes, Llangoed; Alwyn Jones, Gerlan; Heulwen Roberts, Bethesda; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Doris Shaw, Bethesda; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Davies, Bethesda; Dewi Lewis-Jones, Llandegfan; Carys Parry, Caerhun.

**Enillydd Mawrth oedd**: Carys Parry, 28, Caerhun, Bangor, Gwynedd LL57 4UG.

# Natur o'n Cwmpas

## Eira Mawr

### (gaeaf 1962/63)



Un hwyr roedd manblu eira
Uwch y cae'n chwarae mewn chwa
Ysgafn, yn troi wrth ddisgyn
Y min nos oer, a mi'n syn
Yno allan yn syllu
I fyny'n ddwfn i'w nen ddu.
Yna troi, toc, tua'r tŷ
Ac o'r golwg i'r gwely,
A'r plu yn troi'n llu buan
Drwy oriau mud eira mân,
A'r rheini'n troelli'n eu tro
Ar li awel, chwyrlïo
Yn drwch yn nüwch y nen,
Nofio yn y ffurfafen.

Yr eira mân yn trymhau
A chuddio'r holl lechweddau;
Ac o'i yrru gan gorwynt
Drwy'r fro yn hyrddio i'w hynt,
Bwrw'i wyn hyd y bryniau,
Bwrw'i wyn dros grawcwellt brau.
A lle bu ambell bluen,
Agos y lluwch megis llen
Unlliw, a'r wlad yn unllawr
Yn oriau mân eira mawr.
Cuddio gwedd y Carneddau
Gan gwymp trwm, a'r cwm yn cau,
A phob encil a chilfach,
Tan Garth, Tan Buarth, Wern Bach
O glawdd i glawdd o dan glo.
Nos y gwibiog ysgubo

Fel aden wen, a ninnau'n
Y tŷ'n glyd; swatio'n ein gwlâu'n
Dawel-braf, a dôl a bryn
A chaeau'n ddifrycheuyn.

Unnos nid oedd ond ennyd,
Ennyd bach yn newid byd
Cyn inni ddeffro'r bore
Wedi i'r lluwch droi'r holl le
Dan ei wendon yn undarn
Llonydd rhwng Gwernydd a'r Garn;
Unwedd lawr y newydd wlad
Yn hud y gweddnewidiad.
O droi yn un dir a ne',
Bryniau'n bur yn y bore.

Hynt undydd yw plentyndod,
Diafael rawd fel yr ôd;
Mewn amrantiad mae'n dadmer
Yn llwyr megis cannwyll wêr,
Ond mae'r un noson honno
Uwch y cae drwy ddüwch co'
Yma'n awr a minnau'n hŷn;
A honno yn fy ennyn
Dan ei hud i'm dwyn yn ôl
I feddiant y rhyfeddol,
I naws oer y nos arian,
I oriau mawr y rhai mân.
Nos wen a mi'n fachgennyn
Â'm byd i gyd yn fyd gwyn.

**Ieuan Wyn**


Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN



| cynghorydd. Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru |
|---|---|---|---|---|
| 07765 400140 | 07747 690456 | 07789 742092 | 07436 927237 | 07949 034967 |
| Arllechwedd | Gerlan | Canol Bethesda | Tregarth & Mynydd Llandygai | Rachub |

Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Profedigaeth**
Ar nos Sadwrn, 21 Mawrth, yn dawel yng nghwmni ei theulu a gofalwyr Cartref Nyrsio Ceris bu farw Mrs Iola Williams yn 95 mlwydd oed.

Bydd pobl hŷn Talybont yn cofio Iola yn byw yn rhif 5 Cae Gwigin, yn gymdoges a ffrind i Myfanwy ac Arthur Williams. Nes iddi gael ei tharo'n wael cafodd fyw yn gwbl annibynnol. Hoffai fynd i lawr i Fangor i siopa, a chadwai ei thŷ fel pin mewn papur. Cafodd ei hyfforddi fel teilwres, ac yn ei hanterth byddai'n gwnïo llawer a gwneud gwaith llaw. Byddai'n mwynhau cwmni ffrindiau a bu'n ffyddlon i'w chapel.

Roedd nai Iola, mab ei diweddar frawd a'i wraig yn byw yn bell i ffwrdd yn Ne Lloegr. Edrychai Iola ymlaen at gael eu cwmni dros ei phenblwydd bob blwyddyn hyd at farwolaeth ei nai beth amser yn ôl bellach.

Cafodd Iola ofal arbennig yn Uned Telford Cartref Nyrsio Ceris lle treuliodd yr wyth mlynedd olaf ei hoes. Roedd y staff â meddwl mawr ohoni, a Iola yn gwerthfawrogi'r holl ofal a sylw a roesant iddi.

Estynnwn gydymdeimlad i Claire ac Ian Hughes, 13 Cae Gwigin ac i mam Claire, Mrs. Susan Owen sydd yn gyfnither i Iola.

Coffa da am wraig ddiwyd a didwyll.

**Penblwyddi arbennig**
Cafodd Louie Hughes syrpreis mawr ar 18 Mawrth wrth ddeall bod y teulu yn trefnu te parti yn ei chartref, Tŷ Cerrig, i ddathlu ei phenblwydd yn 90oed.

Daeth nifer fawr o deulu a ffrindiau ynghyd yn y pnawn i ddymuno'n dda i Mam; Mam-yng-nghyfraith; Nain; Hen-Nain; chwaer a chyfeilles driw sydd, er gwaethaf triniaethau mawr, yn edrych yn anhygoel o dda o'i hoed. Mae Louie yn dal i weu yn ddi-flino i godi arian at achosion da. Gwnaeth pawb fwynhau'r bwyd parti blasus, a gwerthfawrogwyd cyfle prin i ddal i fyny efo hen gyfeillion. Llongyfarchiadau mawr i chi, Louie; iechyd da a phob bendith i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Danny Casey, mab Helen a ddathlodd ei benblwydd yn 21ain yng nghanol mis Mawrth. Dymuniadau gorau iti Danny. Byddaf yn gweld hi'n brafiach ar bobl ifainc heddiw nag oedd hi arnom ni erstalwm. Maen nhw'n dathlu dod i oed ddwywaith, yn ddeunaw ac yn un-ar- hugain.

Braf oedd gweld modryb Danny, Anya, a'i gŵr Imran a'r hogiau bach wedi dod i fyny o Lundain i aros efo Nain Sue am ychydig.

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau i Arnold ac Amanda Redfern Williams, 8 Cae Gwigin ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed bachgen bach i'w mab Ashley a Stella ei gymar. Croeso i'r byd Alexandros Llywelyn, a phob bendith i'r teulu bach yn eu cartref yng Nghricieth.

**Pêl-droediwr o fri**
Mae Sam Parry, 17 Dolhelyg, yn aelod o sgwad dan 18oed Ysgolion a Cholegau Cymru. Cafodd gêm yn erbyn hogiau'r Alban yr wythnos ddiwethaf, a'r tro nesaf bydd yn teithio i Belfast.

Rydan ni falch bob amser o glywed am lwyddiant pobl ifanc y fro yn y maes chwaraeon, y cylch paffio a'r Gampfa. Llongyfarchiadau i chi i gyd.

**Plant yn chwarae**
Braf oedd gweld llun sgwariau 'hop scotch' a chylchoedd lliwgar wedi'u tynnu ar y llwybr rhwng y ddwy ochr i Fro Emrys. Roeddynt yn bethau cyffredin iawn pan oeddem ni'n blant yn y 50egau, ond 'welais i neb yn chwarae 'hop scotch' erstalwm.

**Y Cae Chwarae**
Mae'r sgwad torri gwair wedi ail-ddechrau ar ôl y Gaeaf dan oruchwyliaeth Rhydian. Diolchwn i bob un ohonoch am eich gwaith gwerthfawr a thwt.

Ar nodyn ychydig yn bryderus: y dydd o'r blaen gwelais dun mawr llawn o nitreous oxide (laughing gas) yn ymyl y bin sbwriel yng nghae chwarae'r plant bach. A barnu oddi wrth y pacedi creision gweigion o gwmpas y cae, roedd rhywrai wedi cael parti. Mae'r caniau'n beryglus, a 'dydyn nhw ddim yn bethau mae unrhyw un yn dymuno eu gweld mewn Cae Swings, na'n unman arall o ran hynny. Rydan ni'n medru gwneud yn well na hynny yn Nhalybont, 'dwi'n siŵr. Ar y cyfan, mae pawb yn mynd i drafferth i ddefnyddio'r biniau. Mae llawer iawn llai o sbwriel o gwmpas y ddau gae ac yn y pentref yn gyffredinol y dyddiau hyn.

## Capel Bethlehem

Oedfaon am 14:00 o'r gloch

| | |
|---|---|
| 19 Ebrill | Parchg. Eric Jones |
| 26 Ebrill | Parchg. John Pritchard |
| 3 Mai | Parchg. Ronald Williams |
| 10 Mai | Parchg. Trefor Lewis |
| 17 Mai | Mr Arfon Wyn |
| 24 Mai | Parchg. Dafydd Coetmor Williams |
| 31 Mai | Parchg. Casi Jones |

Croeso cynnes i bawb.

**Colli Aelod**
Gyda thristwch cofnodwn farwolaeth un o'n haelodau hynaf, Mrs. Iola Williams, gynt o 5 Cae Gwigin.

Magwyd Iola yn Fedyddwraig ond daeth yn aelod o Gapel Bethlehem wedi iddi symud o Gyffordd Llandudno i Dalybont, a bu'n aelod ffyddlon nes i salwch ei gorfodi i symud i gartref gofal. Hyd y blynyddoedd daliodd yn driw i'w gwreiddiau a byddai wrth ei bodd yn cael mynd yn achlysurol i Penuel, Capel y Bedyddwyr ym Mangor, yng nghwmni ei ffrindiau agos y diweddar annwyl Beti a Dennis Williams, gynt o 70 Bro Emrys. Estynnwn gydymdeimlad dwys i deulu a ffrindiau Iola yn eu colled.



**Synnwyr cyffredin o'r diwedd!**
Mae rhywun wedi gweld yn dda i symud yr amserlen bws yng ngwaelod y pentref i bolyn wrth ymyl y lloches, yn hytrach na'r polyn sydd 10 llath ohono! O'r blaen, doedd fyw ichi oedi i'w ddarllen; byddai'r bws i Fangor wedi gwibio heibio cyn ichi gael cyfle i droi. Rwan cewch gymryd eich amser i astudio faint o'r gloch mae'r bws rhif 5 i fod i gyrraedd. Dwn i ddim beth ddigwyddodd i amserlen bws 5D – ella cawn gopi o hwnnw hefyd rhyw ddiwrnod!

Ogwen
Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**
mairpenybryn@gmail.com
01248 352966

**Cylch Glasinfryn**
Cafwyd cinio i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Ganolfan ar 11 Mawrth. 'Roedd pob aelod wedi dod a chyfraniad tuag at y pryd, ac yn wir 'roedd yn wledd gyda phawb wedi mwynhau y bwyd a'r sgwrsio! Brethyn Cartref gafwyd eleni yn lle cân a chafwyd eitemau diddorol tu hwnt. 'Roedd yno ddarlun brodwaith ar sidan a oedd dros gant oed wedi cael ei frodio gan blentyn, gwaith cywrain dros ben. Gwelwyd cardiau post o'r Rhyfel Byd Cyntaf a anfonwyd o Ffrainc; patent i roi topiau ar boteli llefrith ers talwm; hen gist de addurnol oedd yn bresant priodas; tocyn trên olaf a argraffwyd o Felin Hen i Fethesda cyn i'r lein gau; bathodyn MBE a thystysgrif; a hanes diddorol am gompact powdwr a oedd yn perthyn i fam i un o'r aelodau. Mae'n rhyfeddol yn tydi yr eitemau diddorol sydd gennym yn ein cartrefi!

Dosbarthwyd y rhaglen am y flwyddyn ac mae'n argoeli'n rhaglen ddiddorol a difyr - rhywbeth at ddant bawb! Dowch draw ar yr ail ddydd Mercher o'r mis am 2yp, mae croeso cynnes yn eich disgwyl!

Mis nesaf, 13 Mai bydd Carol Williams, garddwraig sydd ar y radio ac S4C yn dod atom i roi sgwrs ac arddangosfa ar "Garddio Gwanwyn". Braf fuasai cael neuadd lawn i wrando ar Carol, dowch yn llu!

**Dymuniadau gorau**
Efallai i chwi ddarllen yn rhifyn Mawrth o'r Llais i Idwal Jones, Y Bwthyn, Ffordd Gwyndy, Penrhosgarnedd gael ei daro'n wael tra ar daith efo Côr Meibion y Penrhyn yn Aberteifi. Mae adref bellach ac yn gwella. Pob dymuniad da i Idwal a Gwyneth hefyd, ei wraig sydd yn dilyn triniaethau mewn gwahanol ysbytai yn gyson. Rydym yn meddwl amdanoch.

Ar yr amser o ysgrifennu deallaf fod Dewi Jones, Bro Eryri, Waen Wen yn glaf yn Ysbyty Gwynedd. Pob dymuniad da i chwithau am wellhad buan.



**Llongyfarchiadau**
Ar 1 Mawrth cafodd Isaac Briscoe, 2 Bryn Pwll, Waen Wen lwyddiant ysgubol yn y pwll nofio yng nghystadleuaeth Menai AA & B Meet 2026 yn Llandudno. Cafodd 1af yn y Dull Rhydd 100m, 2ail yn y Dull Rhydd 50m, 2ail yn y Dull Cefn 50m a 3ydd yn y Dull Cefn 100m. Canlyniadau ardderchog Isaac a llongyfarchiadau mawr!

**Bingo Bach**
Cafwyd noson lwyddiannus o Fingo yn y Ganolfan, 27 Mawrth i godi arian at Sands. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi mewn unrhyw fodd. Cynhelir y Bingo nesaf tuag at y Ganolfan ar 24 Ebrill am 19:00.







**SPAR**
**01248 605566**
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

**Elwyn Jones & Co**
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
**- Cyfreithwyr -**
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01286) 672437 | Pwllheli (01758) 703000




**L. STURRS A'I FEIBION**
SEFYDLWYD YN 1965
**ADEILADWYR**
HEN IARD STESION, FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

*post@llaisogwan.com*

# YSGOLION ABERCASEG A PENYBRYN



Caroline Williams, Pennaeth newydd Ysgolion Abercaseg a Phen-y-bryn

**Pennaeth newydd**
Dymunaf gyflwyno fy hun fel Pennaeth newydd Ysgolion Abercaseg a Phen-y-bryn. Gyda phleser a braint yr wyf wedi derbyn y penodiad ac edrychaf ymlaen yn arw at ddatblygu'r ddwy ysgol mewn cydweithrediad á chymunedau'r ysgolion.

Rwyf bellach wedi setlo'n hyfryd yn y ddwy ysgol ac wrth fy modd yn rhan o gymuned mor groesawgar a chefnogol. Mae'r croeso rwyf wedi'i dderbyn gan y plant, rhieni, staff, Corff Llywodraethol a'r gymuned wedi bod yn gynnes iawn, ac mae'n amlwg fod yr ysgolion yn rhan annatod o fywyd yr ardal. Rwy'n edrych ymlaen at weithio ochr yn ochr â'r gymuned, cefnogi mentrau lleol a chryfhau cysylltiadau sy'n gwneud ein hysgolion yn ganolfannau bywiog o fewn Bethesda a'r cylch.

Byddaf wrth y giât ar wahanol adegau yn y boreau a'r prynhawn—dewch ataf am sgwrs os oes gennych funud!

Fy nymuniad yw i bob plentyn yn yr ysgolion dderbyn Addysg o'r radd flaenaf, i ddatblygu hyd eithaf ei allu a mwynhau dod i'r ysgol. Credaf yn gryf mai partneriaeth agos rhwng yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned yw'r allwedd i sicrhau lles ac ansawdd profiadau'r disgyblion.

Boed i ysgolion Abercaseg a Phen-y-bryn barhau'n sefydliadau ffyniannus o fewn amgylchedd cynhaliol, diogel a llawen.

**Athletau Dan Do Sportshall**
Bu dau dîm o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yng nghystadleuaeth Athletau Dan Do Sportshall ym Mhlas Silyn, Penygroes. Roedd pawb wedi gwneud eu gorau glas a mwynhau'r profiad yn fawr.

**Diwrnod y Llyfr**
Gwelwyd sawl cymeriad adnabyddus wrth gael hwyl yn gwisgo fyny fel cymeriad o lyfr eto'r flwyddyn hon yn Ysgolion Abercaseg a Phen-y-bryn. Mwynhawyd gweithgareddau megis cyflwyniad byw ar Ddarllen Co gan Aneurin Karadog o'i lyfr 'Un i Ti ac Un i Mi', a gweithdy gan Huw Aron ar greu cymeriadau cartŵn. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr.

**Disgyblion Blwyddyn 5 yng Ngwersyll yr Urdd Glanllyn**
Cafodd y disgyblion brofiadau bythgofiadwy yn mwynhau gweithgareddau anturus a hwyliog yn ystod tridiau yng Nglanllyn. Cafwyd pob math o brofiadau - dringo, rhaffau uchel, helfa drysor, saethyddiaeth, gwyllt grefft, cyfeiriannu gyda'r uchafbwynt o bawb yn helpu i adeiladu rafft a'i rhwyfo, yn ogystal â chanŵio ar y llyn. Diolch o galon i Mrs Bethan Hughes a Miss Caryl Griffith am ofalu am y plant. Dangosodd y disgyblion i gyd gwrteisi a charedigrwydd yn ystod eu hamser yno ac mae pawb yn falch o bob un ohonynt.



**Eisteddfod Rhanbarth**
Cafodd disgyblion Ysgol Pen-y-bryn brofiad newydd o baratoi a pherfformio Cân Actol yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd. 'Ymwelwyr' oedd y thema ac aethpwyd ar daith o 1282 hyd heddiw yn cyfarfod gwahanol ymwelwyr ar hyd y daith. Gweithiodd y plant yn hynod o galed yn yr ymarferion yn dysgu geiriau'r caneuon a chofio'r symudiadau gan roi perfformiad arbennig ar y llwyfan yn Pontio. Profiad bythgofiadwy i bob un ohonynt. Llongyfarchiadau mawr i Mali Non ar ddod yn fuddugol ar y llefaru eto yn yr Eisteddfod Rhanbarth. Pob lwc i ti rŵan yn yr Eisteddfod yn Ynys Môn Mali.

**Cyngerdd yn Ysgol Dyffryn Ogwen**
Rhoddwyd cyngerdd ar lwyfan Ysgol Dyffryn Ogwen o eitemau Eisteddfod yr Urdd i deulu a ffrindiau. Roedd hwn yn gyfle gwych i unigolion ac aelodau'r gân actol gael ymarfer ar lwyfan, yn ogystal â dangos eu talentau i'r gynulleidfa.

**Eisteddfod Cylch yr Urdd**
Bu sawl unigolyn yn cystadlu yn rhagbrofion yr Eisteddfod Cylch ac rydym yn llongyfarch bob un ohonynt ar eu hymdrech i ddysgu'r darnau a rhoi perfformiadau clodwiw. Llongyfarchiadau gwresog i Nanw ar ddod yn gyntaf a Loti ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth llefaru i ddisgyblion blwyddyn 3 a 4, ac i Mali Non ar ddod yn fuddugol ar y llefaru i flwyddyn 5 a 6. Bu i'r tair fynd ymlaen i'r Eisteddfod Rhanbarth yn Pontio.

**Taith Gerdded Noddedig Bl3 - 6**
Trefnodd Mrs Ffion Bohana a'r Grŵp Lles daith gerdded noddedig ar hyd Lôn Las Ogwen i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Gwisgodd pawb yn lliwgar gan gerdded yr holl ffordd trwy'r 'twnnel tywyll' i barc chwarae Tregarth. Diolch i bawb am fod mor hael wrth eu noddi. Casglwyd cyfanswm o bron i £1,000. Mae pob dosbarth yn brysur yn ceisio penderfynu ar ba adnoddau amser chwarae i wario'r arian. Diolch hefyd i Mrs Manon Williams am ddod i'r ysgol i addysgu'r disgyblion Bl 2-6 am awtistiaeth.

**Prosiect Yr Hen Bost**
Diolch i Robyn Meredydd am drefnu i ddisgyblion Blwyddyn 4 a 5 gael mynd i'r Gweithdy Gofod Gwneud. Buont wrthi'n brysur gyda Steve yn defnyddio techneg sychdarthu inc i addurno poteli dŵr, yn ogystal â dysgu mwy am brosiect Yr Hen Bost ac am waith celf ME Thompson a fydd yn cael ei arddangos yn y ganolfan dreftadaeth.

**Rygbi Tag Yr Urdd**
Bu dau dîm o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yng Nghlwb Rygbi Caernarfon yng Nghystadleuaeth Rygbi Tag yr Urdd. Roedd y tywydd yn braf a chafwyd cyfle i chwarae sawl gêm gydag un tîm yn cyrraedd y rownd gynderfynol. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

**Boreau Agored Bl3-6**
Yn ystod wythnos olaf y tymor croesawyd y rhieni i'r ysgol er mwyn i'r disgyblion gael cyfle i ddangos eu gwaith. Roedd yn hyfryd gwrando ar y plant yn dangos eu llyfrau a rhannu eu profiadau gyda brwdfrydedd a balchder.



**Parêd y Pasg Meithrin- Bl2**

Bu'r plant yn hynod o brysur yn ystod yr wythnosau diwethaf yn creu hetiau Pasg lliwgar ar gyfer Parêd y Pasg yn Ysgol Abercaseg. Bu llawer o frwdfrydedd a chreadigrwydd wrth iddynt lunio eu hetiau unigryw.

Hoffem ddiolch yn fawr i'r rhieni a'r teuluoedd am eu cefnogaeth barhaus, boed hynny drwy ddarparu deunyddiau, helpu gyda gwaith crefft gartref neu ddod draw i wylio'r orymdaith. Mae eich cymorth yn gwneud gwahaniaeth enfawr i brofiadau'r plant.

Diolch hefyd i Mrs Marian Arman sy'n aelod cymunedol ar Gorff Llywodraethol yr ysgolion am ymgymryd â'r dasg anodd iawn o feirniadu! Roedd yn ddiwrnod llawn lliw a hwyl cymunedol ac yn ŵyl fach o lawenydd gwirioneddol y Pasg.

**Enlli yn Chwarae i Gymru**

Llongyfarchiadau anferthol i Enlli, disgybl ym Mlwyddyn 4 ar gael ei dewis i chwarae pêl-droed i Gymru yn nhîm merched o dan 10 oed. Camp a hanner! Mae Enlli yn rhoi llawer o ymdrech ac ymroddiad gan hyfforddi gyda thîm Cymru ym Mae Colwyn yn wythnosol, yn ogystal â pharhau i hyfforddi a chwarae gemau i'r tîm merched lleol Bethesda Tigers. 'Rydym yn edrych ymlaen at ddilyn dy daith a chlywed am dy lwyddiannau yn y dyfodol Enlli.




MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com


## Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen

**'Bingo' Llyfrgelloedd Gwynedd**

Ar hyn o bryd mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn ceisio annog pobl i ddarllen llyfrau mewn gwahanol 'genres'. Fel tipyn o sbort, maent wedi rhoi cyfle i fynychwyr y llyfrgelloedd ennill gwobrau trwy chwarae 'bingo llyfrau'. Mae gwobrau bach syml ar gael am gwblhau llinell a cherdyn cyfan. Mae rhai gwobrau wedi mynd yn barod. Er mwyn cymryd rhan dewch draw i'r llyfrgell i dderbyn eich cerdyn bingo!

**Arddangosfa Disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen**

Mae arddangosfa'n cynnwys gwaith disgyblion o Ysgol Dyffryn Ogwen mewn partneriaeth â 'GwyrddNi' i'w gweld yn y llyfrgell ar hyn o bryd. Dewch draw!

**Cofiwch am y sesiynau canlynol:**

'Ji Babi Bach' – pob bore Llun rhwng 10:30 a11:15. Sesiwn ganu a stori ar gyfer babanod sydd heb gychwyn cropian (am ddim).

'Paned a Sgwrs' pob bore Iau rhwng 10:30 a 11:30. Cyfle i ddysgwyr ymarfer sgwrsio yn y Gymraeg (am ddim).


*Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?*

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

UNIPART CAR CARE CENTRE

01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

# Partneriaeth Ogwen

**Teithiau Cerdded LleChi LleNi**

Yn dilyn llwyddiant Caban Gerlan hefo'u cais grant LleChi LleNi, mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn cydweithio'n agos gyda phwyllgor Caban Gerlan i drefnu cyfres o deithiau cerdded.

Yn 2025, cafodd Caban Gerlan y newyddion da eu bod wedi derbyn grant i roi cyfle i gymunedau yma yng Ngwynedd i ddathlu a diogelu hanes a threftadaeth ardal y Llechi. Gobaith Caban Gerlan gydag arian y grant yw dod a'r gymuned leol at ei gilydd i ddysgu mwy am yr ardal a'i diwylliant a thraddodiadau sy'n gysylltiedig â Chwarel Penrhyn a'i llechi.

Rydym eisoes wedi trefnu dwy o'r teithiau cerdded hyn. Un o'r rhain oedd Taith Gerdded am ganu pop Pesda Roc nôl ym mis Chwefror o dan arweiniad Rhys Mwyn. Cafwyd bore hynod ddifyr yn clywed straeon am yr ŵyl Pesda Roc a rhai o leoliadau eraill o amgylch Bethesda a chwaraeodd rôl flaenllaw yn natblygiad y sin gerddoriaeth Gymraeg nôl yn yr 1980au. Gan gychwyn yn Neuadd Ogwen cafwyd cyfle i fynd lawr at Glwb Rygbi Bethesda, yn ôl fyny trwy'r Stryd Fawr gan orffen yn 'Bwthyn', cartref i aelodau Maffia Mr Huws.

Yna ar fore hyfryd o Fawrth cafwyd taith arbennig arall a hynny o amgylch Moel Faban. Diolch yn fawr iawn i Heledd Evans a Sion Jones, ein harweinyddion tir isel am ein harwain ar y daith a hefyd i Jess John o gwmni Tylwyth am rannu straeon a chwedlau am ardal Dyffryn Ogwen gyda ni.

Diolch yn fawr iawn hefyd i bob un a fynychodd y teithiau cerdded. Mae dwy daith gerdded arall ar y gweill gennym dros y misoedd nesaf, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw golwg ar gyfer dyddiadau'r ddwy. Byddwn hefyd yn rhannu adnoddau i gyd-fynd gyda'r teithiau cerdded hyn megis map o'r teithiau.

Mae'r gwaith yma yn rhan o gynllun LleChi LleNi; rhaglen buddsoddi gymunedol a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a arweinir gan Gyngor Gwynedd. Mae'n rhan o gyfres o fuddsoddiadau yn deillio o ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.









**Bwrdd Dehongli Newydd ar gyfer Plas Ffrancon**

Bydd defnyddwyr Plas Ffrancon (yn enwedig y rhai sy'n treulio oriau lawer yn aros i blant orffen gweithgareddau) yn gwybod ein bod ni'n ffodus yn Nyffryn Ogwen i gael y cae pêl-droed pob tywydd gyda'r olygfa orau yng Nghymru! Mae'r ganolfan hamdden yn cynnig golygfeydd anhygoel i lawr dyffryn mynyddoedd y Carneddau a'r Glyderau.

Trwy ein gwaith gyda Phrosiect Tirwedd y Carneddau sicrhaodd Partneriaeth Ogwen gyllid i gomisiynu plac dehongli yn dangos ac yn enwi'r mynyddoedd a bryniau. Gyda diolch arbennig i Gyngor Cymuned Bethesda am sicrhau caniatâd cynllunio i godi'r plac ac i Byw'n Iach am gytuno i'w gynnal. Adeiladwyd y wal o lechi wedi'u hailgylchu gan CorMac Developments, a chomisiynodd Cerrig Granite & Slate Ltd y gwaith celf a chreu'r plac gwenithfaen caboledig a osodwyd yn ei le ym mis Mawrth.



Gobeithiwn y bydd y gymuned yn mwynhau defnyddio'r plac i adnabod y mynyddoedd ac efallai hyd yn oed ddysgu rhai enwau sy'n anghyfarwydd.

**Petha - Cefnogi Ysgolion i Ailgylchu Dillad Ysgol**

Mae ein Swyddog Llyfrgell y Petha, Becca, wedi bod yn brysur iawn yn gweithio gydag ysgolion cynradd lleol i sicrhau bod ganddyn nhw drefniadau yn eu lle i gasglu gwisgoedd ysgol ail-law er mwyn iddynt fod ar gael i deuluoedd. Cefnogodd Becca gynghorau'r ysgol i wneud cais am grantiau gan GwyrddNi i brynu silffoedd a basgedi ac mae'r rheiny bellach wedi eu gosod yn Ysgol Abercaseg, Ysgol Pen-y-bryn ac Ysgol Llanllechid. Mae'r dillad ail-law ar gael trwy gydol y flwyddyn ysgol.

# Iaith Pesda

**gan Mary Jones**

**Onid ydy'r misoedd 'ma yn mynd heibio cyn i chi droi! Yn y golofn fis Chwefror roeddem yn sôn am 'y geg'. Wrth sgwrsio â Barbara Jones, Tal y bont cofiodd hi am 'heb sychu'i cheg.' - "Wedi imi ddeud wrthi dyma hi'n syth i ddeud wrth Sian heb sychu'i cheg." Dweud rhywbeth heb feddwl am y canlyniadau efallai! Dywedir am bobl yn ymddwyn yn hollol ddiniwed "fel tasa menyn ddim yn toddi yn ei geg o." Diolch i Sandra Howell am y cyfraniad yna.**

**dim Obadeia.** 'Dim syniad' ydy ystyr hwn. Daw'r 'obadeia' o'r Beibl. Obadeia oedd y proffwyd a roddodd ei enw i un o lyfrau'r Hen Destament, llyfr byrraf y Beibl. Gan fod rhan o'r enw, sef 'adeia', yn debyg i'r gair Saesneg 'idea' sy'n rhan o'r ymadrodd 'no idea', defnyddiwyd yr enw Obadeia i wneud ymadrodd Cymraeg – "Does gin i ddim obadeia."

**ciefn.** Dyna ddwedwn ni am 'cefn' – "Argol, ma' 'nghiefn i'n brifo!"

**dili-dalio.** Tîn-droi ydy hyn – "Paid â dili-dalio yn fan'na. Dos i neud rwbath o werth!".

**sterics.** Cynhyrfu'n arw ydy hwn. Mynd yn gythryblus – "Aeth i sterics pan ddalltodd hi fod damwain ddifrifol wedi bod."

**strancio.** Bod yn anodd eich trin ydy hwn. Mynd yn groes a gwrthod gwneud rhywbeth – "Mae'r hogyn ma'n strancio os na cheith o'i ffordd ei hun!"

**coblyn.** Mae yna sawl ystyr i hwn. Mi fedr olygu bwgan, ysbryd drwg, plentyn direidus, ac mae o'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio syndod neu beryg – "Be' goblyn ddigwyddodd i chdi?"; "Roedd o'n mynd fel coblyn yn y car ac mi a'th ar ei ben i'r wal."

**symol.** Rydan ni'n defnyddio hwn i olygu bod yn wael o ran iechyd – "Yn yr ysbyty mae hi, ac mae hi'n ddigon symol."

**doro.** Dyma ddwedwn ni am 'dyro' – "Doro'r gora iddi!" a "Dorwch gorau iddi!" meddan ni wrth rywun neu rywrai am beidio â gwneud rhywbeth. Ffordd arall o ddweud hyn ydy "Rho'r gorau iddi!" a "Rhowch y gorau iddi!"

**goro.** Dyma ddwedwn ni am 'gorfod' – "Dw i'n goro mynd i'r 'sbyty."

**fiw.** "Fiw iti ddeud dim wrtho fo," Hynny ydi, dydi hi ddim yn syniad da dweud dim wrtho fo achos mi fydd yna ganlyniadau anffodus. Daw 'fiw' o 'gwiw', sef 'da'. Daw "Nid yw'n wiw iti ddweud dim wrtho fo." Mae 'w' ac 'f' yn cyfnewid mewn geiriau eraill hefyd, e.e. 'cafod'/ 'cawod'; 'gorfadd'/'gorwedd'; 'sgwarnog'/'ysgyfarnog.'

**rwbath.** Dyma ddwedwn ni am 'rhywbeth'.

**gaddo**. Dyma ddwedwn ni am 'addo' – "Dw i 'di gaddo mynd efo hi i Gaer."

**giang.** Dyma ddwedwn ni am 'gang', sef criw o rai'n cydweithio – "Roedd 'na giang ohonyn nhw'n gweithio ar y bont newydd."

**dyma ddyn diarth.** Cyfarch rhywun nad ydach chi ddim wedi ei weld erstalwm – "Wel, dyma ddyn diarth! Lle ti 'di bod?"

**smonach.** Llanast neu stomp ydy ystyr hwn, – "Mi wnes i smonach o betha."

**ploryn.** smotyn ar ran o'r corff .

**pendyn.** sy'n cael ei ynganu fel dau air. Mae hwn yn bloryn llawer iawn mwy poenus ac ar adegau angen poltis arno i dynnu'r drwg allan. Pwy tybed sydd yn darllen hwn ac wedi derbyn y fath driniaeth!

**wedi cipio.** yn arferol wedi dwyn neu ei gymeryd yn sydyn, ond gallwn hefyd ddefnyddio 'r gair 'cipio' i ddisgrifio bwyd tebyg i gawl neu lobsgows sydd wedi ei adael ar y stôf mor hir nes mae'n dechrau glynu i waelod y sosban a dechrau llosgi.

**yr igian.** Nid yw hwn i glywed mor aml y dyddiau hyn ond dyma a ddywedaf i bob tro am *hiccups.*

**sefyll yn stond.** ac efallai y caiff 'fel sowldiwr' ei ychwanegu, sef sefyll yn syth ac un tebyg gan Sandra 'sefyll fel dol bren.'

---

**Cofiwch gysylltu: Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, 07443047642. maryeds@hotmail.co.uk**



# Côr y Penrhyn
## gydag Alun Davies ac aelodau o'r côr

# Ymddeoliad ein Gohebydd



Ers blynyddoedd maith (rhai yn deud mai fo oedd swyddog y wasg aeth ar daith gyntaf y côr i Ffair y Byd yn Chicago yn 1893!!), 'rydym fel côr wedi bod yn eithriadol o lwcus o gael gohebydd y wasg penigamp yn adrodd hanes a helynt Côr y Penrhyn yn fisol yn Llais Ogwan, a hynny drwy hiwmor unigryw.

Yn y criw llais Bas 2 oedd Derfel, ond, 'roedd ganddo brofiad o pob llais o fewn y côr gan iddo gychwyn yn Tenor 1, wedyn Tenor 2, wedyn Bas 1 cyn ymgartrefu yn Bas 2. Yn y llun gwelwch Derfel gyda Benjamin Thomas (Ben Jeri), yn ymarfer canu cyfansoddiad "Ben", "Moliannwn". Tybed pa lais oedd Derfel yn ganu yn yr ymarfer hwn? Ddaru Derfel rhoi cymorth i "Ben" yn y cyfansoddiad tybed?

Ond, fel pob dim, mae cyfnod yn dod i ben, ac mae Mr Derfel Roberts wedi datgan ei fod am ymddeol o'r swydd hynod bwysig hon. Bydd yn golled mawr, ac yn anhebygol y cawn person o'r un safon yn y dyfodol.

Felly, diolch yn fawr iawn i ti Derfel am dy wasanaeth di-flino, a phob dymuniad gorau i chdi a Menna gan holl aelodau'r côr.

Mewn newyddion arall, mae'r côr yn cynnal cyngerdd mawreddog yn **Eglwys Crist Glanogwen ar y 26 Mehefin**, gyda Caleb Rhys Jones yn unawdydd.

Mae tocynnau i'r cyngerdd ar gael ar wefan y côr: www.corypenrhyn.cymru

Mae'r côr yn parhau i ddiddanu cynulleidfa yn Henllys yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a gyda chyngherddau amrywiol eraill, 'rydym yn cadw'r aelodau yn brysur.

Ein prif sylw eleni yw ein taith i ymweld â ffrindiau yn Notzingen yn Yr Almaen. Mae'r cysylltiad gyda band pres "Musikverein Notzingen-Wellingen e.V." yn bodoli ers bron i 50 mlynedd, ac yn wir, yn 2027 bydd y band yn ymweld â Bethesda i ddathlu'r garreg filltir honno. Ond ym mis Gorffennaf eleni bydd y côr yn ymweld a'r dref ac yn canu mewn amrywiol gyngherddau yn ystod yr wythnos, ac wrth gwrs, yn cael cyfle i gymdeithasu gyda ffrindiau hen a newydd yn nhref Notzingen. Fel paratoad am y cyngherddau yn Notzingen mae ein ymarferion yn canolbwyntio ar ddarnau newydd i'w perfformio gyda'r band, un o'r darnau yw "Babu Yetu", sef gosodiad yn yr iaith Swahili o Weddi'r Arglwydd.

Mae'r côr yn dal i ddenu aelodau newydd brwdfrydig, ond mae pob amser le i fwy, felly os oes gennych ddiddordeb mewn canu mewn côr meibion, yna pam ddim galw mewn i Neuadd Ogwen ar nos Lun i'n ymarferion i chi gael blas ar fywyd y côr, ac efallai ymuno â ni yn y canu, mae croeso cynnes i chi pob amser. Mae croeso hefyd i unrhyw un ddod i'n ymarfer i wrando ar y côr.

## Cymeriadau'r Côr

**Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Gareth Jones.**



**Be' ydy dy enw llawn?** Gareth Jones
**Oed?** 71
**Gwaith?** Wedi ymddeol
**Lle wyt ti'n byw?** Waunfawr ger Caernarfon
**Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** Niwbwrch, Sir Fôn
**Pa dri pheth fasa'n dy ddisgrifio orau?** Doniol, Cymwynasgar, Hoffi fy mwyd
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Dau fis
**Pa lais wyt ti?** Tenor 1
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Dafydd Jones-Morris yn gofyn a gofyn, ac hefyd wedi bod yn canu ers blynyddoedd
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** O Gymru
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Michael Ball
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Pêl droed a trafaelio
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Cario ymlaen i fod yn llwyddiannus



# Tafarnau Dyffryn Ogwen



**Mi fasa peint neu ddau yn dda! Dros y misoedd nesaf cyflwynir darlun o fywyd cymdeithasol Dyffryn Ogwen ar daith feddwol yn hen dafarnau'r fro yng nghwmni Idris Lewis, Richard Hughes a John Ll. Williams.**

**Cyflwyniad**

Wrth ymchwilio i hanes Dyffryn Ogwen ychydig o sylw mae tafarnau wedi ei dderbyn er iddynt wneud cyfraniad eithriadol bwysig – a thra derbyniol i'w mynychwyr – ym mywyd cymdeithasol ein cymuned dros y degawdau. Mae'n debyg pan sefydlwyd y pentra gyntaf yn 1820 y bu rhyw fath o gystadleuaeth p'run ai enw Beiblaidd, sef Bethesda, ynteu enw tafarn, y Star, ddylai fod ar y clwstwr adeiladau cynharaf, a chwi wyddoch mai enw'r capel a orfu! Ac mae'r rhaniad rhwng y capel a'r dafarn wedi bod yn thema amlwg iawn yn hanes bywyd cymdeithasol Cymru ers cychwyn y 19g, ac i raddau llawer llai mae adlais o hynny yn dal i fodoli heddiw.

Mae'r gyfres o nodiadau sydd i ddilyn yn canolbwyntio ar adrodd hanes sefydlu'r tafarnau yn ystod eu hoes aur ar Stryd Fawr y pentra yn y 19g, cyfnod cyffrous pryd yr oedd cymdeithas ddiwydiannol yn cael ei chreu yn Nyffryn Ogwen. Bydd cofnodi tranc y tafarnau yn ystod y cyfnod a ddilynodd yn dasg i haneswyr eraill i'w hadrodd, ond sylw i'r sefydliadau cynharach, a bid sicr i'r rhai mwyaf diddorol ohonynt, a geir yn y gyfres o nodiadau sydd i ddilyn.

### 1. Tafarn Gelyn

Mi awn ni am beint go gryf yn Nhafarn Gelyn heno!

Lle'r oedd y dafarn gyntaf, os tafarn hefyd, roddodd gychwyn i'r gyfres o dafarnau a ymddangos yn Nyffryn Ogwen drwy'r ddwy ganrif ddiwethaf fwy neu lai? Saif Tafarn Gelyn yn furddun digon trist yn un o gaeau fferm Bryn Eithin ar fin y ffordd i Chwarel Bryn Hafod y Wern yn Llanllechid. Bu tri enw arall ar Dafarn Gelyn, sef Ty'n Lôn, Tŷ Ffeltiwr a Bryn Eithin Bach. Yno dywedir y byddid yn bragu cwrw i'w yfed ar gyfer diwrnodau gŵyl trigolion yr ardal, a gwyliau yng nghalendr eglwys y plwyf fyddai'r mwyafrif o'r rhai hynny. Yn ôl traddodiad, cynhelid ffair yn agos at ŵyl mabsant, ac yma yn ein hardal ni roedd Ffair Llan yn cael ei chynnal yn niwedd Tachwedd neu ddechrau Rhagfyr gan fod Gŵyl Llechid ar yr 2il o Ragfyr, yr un dyddiad â Gŵyl yr Holl Eneidiau, efo Gŵyl yr Holl Saint y diwrnod cynt, sef y 1af o Ragfyr.

Pan fyddai'r brag yn barod i'w yfed gosodid torch o gelyn ar ddrws y tŷ – y celyn yn arwydd o groeso bythol iraidd i'r holl ddarpar lymeitwyr. Nid bod effeithiau'r brag yn fythol iraidd, efallai, oherwydd ar ddyddiau gŵyl wedi'r holl ornestau o redeg, paffio, tynnu torch a'r betio ar ymladd ceiliogod a chwarae bando, yna byddai'r diwrnod i'w orffen mewn randibŵ go ddifri o feddwi a chwffio, a'r canlyniadau yn gur pen go fawr am ddiwrnodiau i ddilyn.

Yn ddiddorol iawn, mae cofnod yng nghylchgrawn Y *Punch Cymraeg* yn 1860 am ferch ifanc yn chwil ulw yn Nhafarn Gelyn ar ddiwrnod Ffair Llan.

Canolbwynt yr holl gyfeddach fyddai hen eglwys y plwyf a'i chyrion. Yno yr oedd hen draddodiadau paganaidd i'w dilyn yn gymysg â'r defodau eglwysig, ac yno yr oedd awdurdod y plwyf i'w ganfod gan swyddogion Cymdeithas Gwarchod y Comin, math o gyngor plwyf, pur debyg, yn cyfarfod yn hen dafarn y Red Lion, ac ar y ffordd y tu draw i glawdd terfyn y fynwent, offer gweledol cyfraith a threfn - y garreg farch i'r byddigions farchogaeth eu meirch o'i chopa, a'r cyffion i gloi yn gyhoeddus yr holl ddrwgweithredwyr a feiddiai dorri ar heddwch y plwyf. Ac wrth borth yr eglwys yr oedd lleoliad deial haul, y teclyn carreg effeithiol i gofnodi'r amser i'r plwyfolion, cyfrwng yr hen fyd o bennu amser, a symbol o'r gorffennol ar drothwy croesawu dull y byd newydd i blwyf Llanllechid o nodi amser drwy gyfrwng oriawr boced. A dyma hen fyd y Canol Oesoedd yn graddol ddirwyn i ben dan lach a beirniadaeth yr enwadau newydd Anghydffurfiol.

Ac felly y peidiodd y gofyn am frag o Dafarn Gelyn i ddathlu prif wyliau'r gymuned. A dyna, wrth gwrs, gychwyn ar y rhaniad cymdeithasol a grybwyllwyd ar ddechrau'r nodyn hwn rhwng y cyfiawn capelog a'r anghyfiawn dafarnog. Yr oedd gan y ddwy aden eu cyfraniad, ond yn y gyfres hon y tafarnog a gaiff y sylw.

# Eglwys St Cedol, Pentir

**Clwb Crefftau**

Bydd Clwb Crefftau Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod bob Prynhawn Gwener o'r mis am 14:00. Dewch a'ch crefft i gael hwyl, panad a sgwrs.

**Te Bach**

Mae eglwys St.Cedol yn cynnal ei Te Bach ar brynhawn Mercher cyntaf or mis am 14:00 o'r gloch, bydd y Te Bach nesaf ar y 6 Mai. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

**Hamper Misol**

Rydym yn cynnal Raffl o Hamper Misol ar themâu gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys Enillydd Hamper Mis Chwefror oedd Cefin, yn rhoddedig gan Alison, ac enillydd Mis Mawrth oedd Dawn a'r hamper yn rhoddedig gan Adrian a Marion.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn eu rhoddion o'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Noson o Jazz**

Bydd Noson o Jazz yng nghwmni Brechdan Jam a'r Jamettes (Ysgol David Hughes) yn Eglwys St. Cedol, Pentir ar y 7 Mai am 19:30. Mynediad yn £10 y tocyn ar gael ar y drws. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am noson o gerddoriaeth Jazz.

**Gwasanaethau'r Sul**

Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9:30 mae croeso cynnes i chwi ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs.

**Manylion cyswllt**

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw amgylchiad arall i ymwneud â'r eglwys cysylltwch â'r Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen, gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521 Cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu gael sgwrs.

## Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at Dennis Dart, Rhos y Nant a gobeithio ei weld yn y whist yn fuan.

**Diolch**
Dymuna Heather, Elaine a Dawn a theulu'r ddiweddar Mrs Mair Taylor ddiolch o galon am yr holl negeseuon a'r cardiau a dderbyniwyd ganddynt. Diolch hefyd am yr arian a dderbyniwyd i staff Glyn Menai er cof am eu mam. Diolch i J. P. Turner , Ynys Môn, Y Parchedig Emlyn C. Williams a Caffi Coed y Brenin am eu gwasanaethau.

**Carnifal Bethesda**
Buan iawn y daw hi yn ddiwrnod y carnifal sef 16 Mai. Mae'r pwyllgor wedi bod yn gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn yn cynnal gweithgareddau cymdeithasol er mwyn codi arian i'r gronfa. Roedd sawl fflôt yn yr orymdaith y llynedd ac roeddent yn werth eu gweld. Ydy nhw wedi codi blys arnoch chi, ffrindiau a chymdogion i ddod at eich gilydd eleni i wneud fflôt a bod yn rhan o'r orymdaith, ac efallai ennill gwobr am y fflôt orau! Cysylltwch â'r pwyllgor, maent ar y gweplyfr, neu carnifalbethesda@gmail.com
Cynhelir Seremoni'r Coroni nos Wener, 8 Mai am 18:00 yn Ysgol Dyffryn Ogwen.

**Gorffwysfan**
Cynhaliwyd cyfarfod o'r pwyllgor fore Llun, 2 Mawrth gyda Rhiannon Efans yn y gadair, a nifer dda o'r aelodau'n bresennol. Anfonwyd cyfarchion y clwb, trwy'r Cadeirydd, am wellhad buan i'r aelodau a oedd yn sâl gartref neu yn yr ysbyty: Ann Fôn Williams, Val Amos, Christine Jones, Junior Dignam, O Evans ac Edric Jones yr Is- gadeirydd.

Darllenwyd cofnodion Dydd Llun, 3 Mawrth 2025 a chafwyd cadarnhad gan ein trysorydd bod sefyllfa ariannol y clwb yn foddhaol. Diolchwyd i Helen am ei gwaith.
Penderfynwyd cynnal 5 gwibdaith yn ystod 2026:
29 Ebrill Yr Wyddgrug a Brychdyn, cychwyn am 8:30
24 Mehefin – Skipton a Howarth, cychwyn am 8:00
12 Awst – Y Bala – Byd Mary Jones a Trên bach Llyn Tegid
23 Medi – Gerddi Morton a Chroesoswallt cychwyn am 8:30
2 Rhagfyr – Marchnad Bury, cychwyn am 8:00
Bydd pob gwibdaith yn cychwyn ger y gofeb ar y Stryd Fawr.

Penderfynwyd cynnal bore coffi, manylion dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau.
Cynhelir cinio Nadolig yng Nghlwb Rygbi Bethesda ddydd Mercher, 9 Rhagfyr.

Cynhelir y pwyllgor nesaf, sef y Cyfarfod Blynyddol, fore Llun 20 Gorffennaf am 11:00.

**Sefydliad y Merched, Carneddi**
Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol ym mis Mawrth, ac ail etholwyd y swyddogion sef, Nicola Hughes yn Llywydd, Gwyneth Morris yn Is-lywydd, Carys Thomas yn Ysgrifenyddes, Nia Williams fel Trysorydd ac Annwen Hughes i fod yn gyfrifol am y Raffl.

Cafwyd Adroddiadau Blynyddol gan y Llywydd, Ysgrifenyddes a' r Trysorydd, a thrafodwyd syniadau ar gyfer y tymor sydd o'n blaen. Gobeithiwn fedru rhoi rhaglen ddiddorol at ei gilydd mis nesaf. 'Rydym yn cyfarfod ar y nos Iau cyntaf o bob mis yn festri Capel Jerusalem am 7. Croeso i aelodau newydd.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Apêl**
Mae cronfa'r Apêl yn dal ymlaen, gan fod costau cynyddol yn dod i law oherwydd tywydd garw ayb. Diolch am unrhyw roddion, gwerthfawrogir pob un yn fawr. Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu i'r Apêl, neu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop.coop er mwyn cael y manylion.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf fel arfer at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ôl llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sy'n colli dod i'r eglwys i ymuno yn y gwasanaethau a'r cyfeillgarwch.

Cofiwch roi gwybodaeth i Sara os oes rhywun yn awyddus i gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

**Plas Ogwen**
Ar y Sul olaf o'r mis mae'r Parchedig Sara yn cynnal gwasanaeth Cymun i drigolion Plas Ogwen am 2 o'r gloch. Mae croeso i bawb, ac wedi bod yn boblogaidd i'r rhai sydd wedi mynychu hyd yma. Mae'n wasanaeth byr a chyfle i gyd-ganu ambell i emyn.

**Gwasanaethau Glanogwen**
Mae trefn y gwasanaethau ym mis Ebrill yn parhau fel a ganlyn:
Suliau 1af a'r 2il yn y mis: Cymun Bendigaid am 11:00.

Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis am 10:30 – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

Croeso cynnes, fel arfer, i bawb i'r holl wasanaethau.

**Cyngerdd Mawreddog**
Diolch yn fawr i Gôr Meibion y Penrhyn am gynnig cynnal cyngerdd er budd yr eglwys ar nos Wener, 26 Mehefin. Edrychwn ymlaen yn fawr at y noson, a bydd tocynnau ar gael yn fuan iawn gan aelodau'r Côr ac o'r eglwys. Hefyd, cadwch lygad allan am stondin yr eglwys yn y Carnifal – cofiwch gefnogi!

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu â'r Parchedig Sara Roberts ein hoffeiriad cynorthwyol ar 07967652981 os am drefnu bedydd neu angladd.

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.


Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

## Yr Eglwys Unedig

**Diolch**
Diolch yn fawr iawn i'r canlynol am arwain ein hoedfaon yn ystod yr wythnosau diwethaf: Y Parchedigion R O Jones, Cledwyn Williams a Gerallt Lloyd Evans, a'n Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths. Mrs Griffiths oedd yn gyfrifol hefyd am yr Oedfa a Chymun undebol a gynhaliwyd yng nghwmni aelodau Capel y Rhos, Capel Caeathro, a Chapel Cysegr, Bethel.

**Y Gymdeithas**
Croesawodd Neville yr aelodau hynny a oedd wedi mentro allan ar noson ddigon stormus. Ein gŵr gwadd oedd Andre Lomozik, a chawsom sgwrs hynod ddiddorol ganddo ar y mynwentydd yn nalgylch Dyffryn Ogwen. Hefyd cawsom ychydig o hanes rhai oedd wedi'u claddu ynddynt. 'Roedd yn amlwg bod dipyn go lew o waith ymchwil wedi'i wneud gan Andre – y cyfan yn ddiddorol ac addysgiadol iawn. Diolchodd Neville i Andre, ac i Joe a Beryl am baratoi'r baned.

**Bore Coffi**
Cynhelir Bore Coffi er budd y Capel fore Sadwrn, 18 Ebrill yn y Festri fach. Erfyniwn am eich cefnogaeth fel arfer – mae angen llawer o arian i gynnal yr adeilad!

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Ebrill 19: Y Parchedig Eric Jones am 10:00
Ebrill 26: Y Gweinidog am 10:00
Mai 3: Y Parchedig Olaf Davies am 17:00
Mai 10: Undebol yn Llanrug am 10:00
Mai 17: Y Gweinidog – Cymorth Cristnogol am 10:00

**Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?**

## Cyngor Cymuned Bethesda

**Lloches Bws**
Da yw gweld bod lloches bws Maes Bleddyn yn ei le bellach ac yn edrych yn dda.



**Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned**
Yng nghyfarfod mis Mawrth o'r cyngor trafodwyd llythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd yn ein gwahodd i wneud cais am i fyny at £7,000 ar gyfer prosiect arbennig. Bydd rhaid anfon cynllun o unrhyw brosiect gyda'r cais sydd i'w gyflwyno erbyn 15 Mehefin. Trafodwyd mai syniad da fuasai gofyn i'r cyhoedd am eu barn a'u syniadau. Os oes unrhyw un ohonoch gyda chwestiwn neu i holi'n fanylach, neu egin o syniad yna cysylltwch gyda'r cyngor ar cyngorbethesda@ogwen.org, neu Partneriaeth Ogwen, 26 Stryd Fawr, Bethesda Ll57 3AE 01248602131, neu gydag unrhyw un o gynghorwyr Cyngor Cymuned Bethesda.

## Gair neu ddau John Pritchard

# MAE ARNAF GYWILYDD

Yn rhy fynych, rwy'n gorfod cyfaddef fod arnaf gywilydd ohonof fy hun fel Cristion. Cywilydd o'm hymroddiad llai na llwyr i Iesu Grist; fy nghariad oeraidd ato; f'anufudd-dod i gyfraith Dduw; f'amharodrwydd i dystio i'r Efengyl; fy niffygion mewn gweddi; fy methiant i lefaru a gweithredu ar ran y gorthrymedig a'r anghenus; a llu o bethau eraill.

Ond gyda'r Apostol Paul, medraf ddeud dau beth. Yn gyntaf, nad oes arnaf gywilydd o'r newydd da am Grist: 'Nid oes arnaf gywilydd o'r Efengyl, oherwydd gallu Duw yw hi ar waith er iachawdwriaeth i bob un sy'n credu, yr Iddewon yn gyntaf a hefyd y Groegiaid' (Rhufeiniaid 1:16). Ac yn ail, nad oes arnaf gywilydd o unrhyw wrthwynebiad neu feirniadaeth a ddaw o gredu'r Efengyl honno: 'Dyma'r rheswm, yn wir, fy mod yn dioddef yn awr. Ond nid oes arnaf gywilydd o'r peth, oherwydd mi wn pwy yr wyf wedi ymddiried ynddo, ac rwy'n gwbl sicr fod ganddo ef allu i gadw'n ddiogel hyd y Dydd hwnnw yr hyn a ymddiriedodd i'm gofal' (2 Timotheus 1:12).

Ond yn rhy fynych o lawer, y mae arnaf gywilydd o grefydd ac o rai Cristnogion ac eglwysi a'u harweinwyr. A'r dyddiau hyn, y math o grefydd y clywn amdani yn yr Unol Daleithiau sy'n peri'r cywilydd hwnnw: crefydd Donald Trump a Pete Hegseth a Paula White. Nid mai dyna'r darlun cyflawn wrth gwrs. Y mae yn y wlad enfawr honno Gristnogion cywir sy'n driw i'r Efengyl, yn onest eu gair ac yn lân eu buchedd. Mae yno filoedd lawer o Gristnogion gwell na mi; mwy ffyddlon eu cerddediad gyda'u Gwaredwr a mwy tanbaid dros rannu'r newydd da amdano. Gwaetha'r modd, mae yno hefyd grefyddwyr fel Trump a Hegseth a White.

Mae arnaf gywilydd o'r bobl sy'n arddel y Trump annuwiol ac anfoesol yn eneiniog Duw. Mae arnaf gywilydd o Hegseth yn cam ddyfynnu o'r Beibl wrth chwydu casineb a chyfiawnhau cyflafan, ac yn gwbl ddiedifar hyd yn oed am ladd oddeutu 110 o enethod ysgol ym Minab, yn ne Iran. Wna i ddim mentro cyfieithu ei lysnafedd: '*Maximum lethality, not tepid legality; violent effect, not politically correct*'. Ac mae arnaf gywilydd o White, 'prif ymgynghorydd ysbrydol' Trump, a'i honiad cableddus hi bod gwrthod neu wrthwynebu Trump yn gyfystyr â gwrthod neu wrthwynebu Duw ei hun.

Dyw bodolaeth pobl a chrefydd o'r fath ddim yn annisgwyl. Rhybuddiodd Iesu Grist ei ddilynwyr rhagddyn nhw a'u tebyg: 'Gochelwch rhag gau broffwydi, sy'n dod atoch yng ngwisg defaid, ond sydd o'u mewn yn fleiddiaid rheibus' (Mathew 7:15). Ond er nad yn annisgwyl, y maen nhw'n dal yn ddychryn yn eu gwyriad a'u cabledd. Mae arnaf gywilydd o'r gyfundrefn grefyddol sy'n caniatáu i'r bobl hyn bablu celwyddau a chamarwain cynulleidfaoedd. Ac mae arnaf gywilydd o'r bobl sy'n eu dilyn, er gwybod y dylwn dosturio wrthyn nhw am gael eu twyllo. Ond gan mor amlwg y celwydd a'r cabledd a'r ymelwa, mae'n anodd deall parodrwydd pobl i gymryd eu twyllo gan bobl o'r fath.

Ond o ddeud fod arnaf gywilydd o'r bobl hyn a'u crefydd ffals, mae rhybudd deublyg Iesu Grist yn ein herio ninnau bob dydd. Mae'n amlwg yn ein rhybuddio rhag cyfeiliornad pobl fel Paula White sy'n dysgu, er enghraifft, bod cyfraniadau ariannol hael iddi hi'n sicrhau iechyd a chyfoeth a hir oes i bobl. Ac y mae hefyd yn ein rhybuddio rhag bod mewn unrhyw ffordd yn debyg iddyn nhw.

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

### Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Eglwys Agored**
Bydd cyfle i ymweld â'r Eglwys o Basg ymlaen, pan fydd yr adeilad ar agor yn ddyddiol tan Diolchgarwch y Cynhaeaf. Mae Eglwys St Tegai yn ran o'r cynllun cenedlaethol "Eglwys Agored" ers 2004. Dewch draw!

**Dathlu**
Llongyfarchiadau mawr i Hazel Jones o Fryn, Llandygai ar ei phenblwydd yn 90 oed! Gobeithio y caiff amser da yn dathlu gyda'r teulu.

**Y Fynwent**
Ers blynyddoedd maith bellach mae Eglwys St Tegai wedi gwarchod erw Duw drwy ymatal rhag torri'r gwair ar ddechrau'r Gwanwyn i helpu blodau gwyllt i ffynnu. Bydd ein garddwr proffesiynol, Siôn Aelwyn Roberts yn atal o dorri'r gwair i roi cyfle i'r cennin Pedr, briallu a chlychau'r gog flodeuo. Cedwir y llwybrau ar agor yn y cyfamser i hwyluso mynediad at y beddau.

**Dymuniadau gorau am adferiad**
Estynnwn ein dymuniadau gorau i bawb o'r gynulleidfa sydd yn derbyn triniaeth neu yn disgwyl am sylw meddygol.

**Gwasanaethau Ebrill**
*Ar y Sul*
Mae gwasanaethau St Tegai am 11:00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

*Ar Ddydd Mercher*
Gwasanaeth 10:30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Rhodd Pasg**
Derbynir yn ddiolchgar unrhyw roddion drwy siec yn daladwy i Eglwys Llandegai Church, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion: Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd LL57 3EF; Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4LD; neu Edmond Douglas Pennant (Trysorydd Dros Dro), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU. Os gwelwch yn dda a wnewch chi ysgrifennu enw llawn, cyfeiriad ac e-bost ar eich rhodd. Mae'n bosib hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys. Pob rhodd Pasg erbyn ddiwedd Ebrill os gwelwch yn dda. Wrth gwrs mae'n bosib talu drwy drosglwyddiad banc hefyd (Cyfrif yr Eglwys: 30-90-43 00098435). Diolch yn fawr i bawb o'r ardal sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i'n hachos.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen ond oherwydd ei salwch hir dymor gofynnwn i chi gysylltu gydag Archddiacon Bangor, yr Hybarch David Parry, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwysi ym Mro Ogwen davidparry@churchinwales.org.uk Wrth gwrs, gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Parch Sara Roberts SaraRoberts@churchinwales.org.uk



Warden a Thrysorydd St Tegai gyda Vicky Macdonald ac organydd eglwys Conwy, Chris Roberts, yng ngwasanaeth coffa Archesgob John Williams.

**Gwasanaeth Coffa Archesgob John Williams (John Iorc)**
Ar 25 Mawrth cynhaliwyd gwasanaeth coffa i Archesgob John Williams (John Iorc fel yr adweinir yn lleol) unwaith eto yn Eglwys Santes Fair, Conwy i nodi dydd ei benblwydd a'i farwolaeth yn 1650.

Cynrychiolwyd yr eglwys gan 4 aelod o'r gynulleidfa ac yn ystod y gwasanaeth gosodwyd torch o flodau gan wardeniaid St Tegai er cof am John Williams ar fedd y teulu Wynn o stad Gwydir, sef teulu ei fam. Trefnwyd y gwasanaeth gan Vicky Macdonald, hanesydd lleol sydd wedi ysgrifennu cyfrol am fywyd a gyrfa'r Archesgob. Mae'r llyfr ar werth am £5 gan Ann E Williams warden y Ficer yn St Tegai. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd torch o flodau'r gwanwyn i'w gosod wrth y gofeb yn St Tegai.



**Penblwydd Hapus**
Ar 20 Mawrth dathlodd Robin Jones, gynt o Bentref Llandygai ei benblwydd yn 102 oed. Mae'n byw ym Mhlas Ogwen ers dwy flynedd ac yn hapus iawn yno.

***Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?***

# RHYFEL Y BOER 1899 – 1902 Gan Andre Lomozik



Mis diwethaf ysgrifennais hanes Caradog Jones a'i amser yn Rhyfel y Boer yn Ne Affrica. Ers hynny rwyf wedi dod ar draws dau adroddiad arall yn ymwneud â bechgyn o'r ardal a fu'n ymladd yno hefyd. Mae'r ddau adroddiad yn bur wahanol. Y cyntaf yn ymddangos yn y newyddiadur 'Gwalia' a'r llall yn y 'Rhyl Journal'. Un yn rhoi clod i filwr am ei wasanaeth a'r llall yn stori drist am yr hyn fyddem yn ei ystyried heddiw yn trawma 'PTSD' (post traumatic stress disorder).

Nid wyf wedi dod o hyd i fwy o wybodaeth am yr un o'r ddau fachgen hyd yn hyn, er chwilota yn nogfennau milwrol a newyddiaduron y cyfnod.

**GWALIA 10 Chwefror 1903**
BETHESDA – Cydnabod Gwasanaeth Milwrol. Cyfeirio yr ydym at y cymeriad adnabyddus, Mr J Llechyd Jones (Schoolie), Braichmelyn, yr hwn fu yn gwasanaethu am lawer o flynyddoedd fel swyddog (corporal) gyda'r Royal Anglesey Engineers (Militia). Gwasanaethodd hefyd yn y rhyfel diweddar yn Ne Affrica, lle y tarawyd ef gan y "dysentrey". Wedi iddo ddyfod gartref, derbyniodd dlws (medal) hardd, gyda thri "clasp" arni, ac hefyd derbynia rhyw gymaint o arian yn chwarterol. Yr wythnos ddiweddaf derbyniodd lythyr oddiwrth yr awdurdodau milwrol (yr hwn a welsom) yn ei hysbysu y bydd iddo dderbyn o hyn allan flwydd-dal o swllt yn y dydd am ei oes – cydnabyddiaeth gwir deilwng am ei wasanaeth ffyddlon i'w Frenin a'i wlad.

**RHYL JOURNAL 14 Chwefror 1903 tud. 8**

**Another War Office Scandal**

**Bangor Guardians follow the example by St. Asaph Union**

Mewn cyfarfod o'r Bangor and Beaumaris Board of Guardians, gyda Mr Hugh Thomas yn Llywyddu y North Wales Counties Lunatic Asylum, Denbigh, adroddwyd y rhyddhad o John Williams, Tynclwt, St Ann's, Bethesda, milwr o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru.

Dywedodd y Canon Morgan, ei fod eisiau gwneud yn gyhoeddus y ffordd roedd y Swyddfa Rhyfel wedi trin y gŵr yma. Roedd John Williams wedi gwasanaethu heb unrhyw gŵyn am dwy flynedd yn y rhyfel yn Ne Affrica, ond roedd y creadur wedi colli ei reswm, ac ar ei ddychweliad gartref i'r wlad hon rhoddwyd dillad gwaraidd iddo yn Netley, ac yna gyrrwyd ef ymlaen i Ysbyty gwallgofion Dinbych. Yno fe gymerwyd yr holl ddillad oddi arno a'i adael yn noeth heb ddilledyn ar ei gefn. Roedd y Canon Morgan yn meddwl fod hyn yn warth ac yn sgandal ei fod wedi ei adael yn y fath gyflwr. (Clywch, Clywch) a'r diwrnod o'r blaen pan ddaeth ei fam i'w nol roedd yn rhaid iddi fynd a dillad ei frawd iddo. Roedd y Canon yn gobeithio y byddai y Gwarcheidwaid yn fwy hael na'r Swyddfa Rhyfel. (Clywch, Clywch).

Dywedodd Mr Priestly ei fod yntau yn gwybod am amgylchiad tebyg yn Llangefni, ond nid oedd yn meddwl mai'r Swyddfa Rhyfel oedd ar fai yn yr ail achos, roedd o'r farn mai'r Ysbyty gwallgofion oedd ar fai. Nid oedd y Canon Morgan yn cytuno, dywedodd fod yr hebryngwyr wedi cymryd gofal o'r dillad ac wedi mynd a hwy yn ôl i Netley.

Gofynnodd y Parchedig Wm. Edwards pwy oedd yn berchen ar y dillad- John Williams, ynteu y Swyddfa Rhyfel? Atebodd y Canon Morgan: 'Pa wahaniaeth dillad pwy oeddynt! Roedd yn beth di-raen i wneud'. (Cymeradwyaeth uchel).

Cysylltwch os gwelwch yn dda os gwyddoch fwy am hanes J. Llechyd (Llechid)? Jones, Braichmelyn, neu John Williams, Tŷ'n Clwt, St. Ann's, Bethesda.







# Nyth y Gân



Daeth cyfraniad colofn Nyth y Gân y mis hwn trwy law Wyn Thomas, gynt o'r Gerlan. Cafodd Wyn ei eni a'i fagu yn Stryd Goronwy, yn fab i Ben a Dolly Thomas (teulu Dianas o Pesda gynt). Fel y gwŷr darllenwyr y Llais, ymgartrefodd Wyn yn ardal Abertawe ers degawdau gan ddilyn gyrfa lewyrchus yn y cyfryngau, ond mae'r fro hon yn parhau'n agos iawn at ei galon.

Lluniwyd y gerdd ar gais Wyn gan ei gyfaill y Prifardd Alan Llwyd, a hoffem ddiolch yn garedig iddo am roi sêl ei fendith i'w chyhoeddi gyntaf yn y rhifyn hwn o Llais Ogwan. Cafodd y gerdd ei hysbrydoli gan y llun hwn o Dafydd Thomas (mab Wyn) yn dangos mynyddoedd Eryri i'w ŵyr, Louie.

## Eryri

Hen yw'r mynyddoedd hyn a hen yw eu henwau.
Bu cenedlaethau lawer
yn tramwy ar y trumau hyn:
cerddetwyr, ymwelwyr, chwarelwyr
yn dringo o drum i drum
gan feddwi ar y golygfeydd.

Hen yw'r mynyddoedd hyn a hen yw eu hanes:
y mae hud yng Nghwm Idwal,
hen hud o hyd yno'n dal
i fod; y mae naws y cynfydoedd
wedi aros yma; mae'r carneddau a'r llethrau yn llawn
dirgelwch o hyd, a'u hawyrgylch hen
yn drwm o hyd ar draws y mynydd-dir moel.
Gwlad arall yw r Glyderau,
gwlad lle mae amser wedi sefyll yn stond.
Wedi aros y mae r Glyderau
fel ag yr oeddynt filoedd o flynyddoedd yn ôl.
Y mae amser wedi ei fferru'n y mynyddoedd hyn.

Yma bu'r chwarelwyr gynt,
ar ôl wythnos galed o drin bargen a chrawen,
yn cael hamdden a hoe:
dringo Cwm Idwal i gyrraedd y llyn
ar brynhawniau Sadwrn,
a threulio oriau yn pysgota yno,
gan obeithio y brathai brithyll neu ddau
i'w helpu yn eu brwydr barhaus
i roi bwyd ar y bwrdd.

Hen yw'r mynyddoedd hyn a hen yw eu henwau:
pwy a roddodd eu henwau i'r mynyddoedd hyn,
enwau sydd yn un â'r creigiau,
a'r llythrennau'n un â'r llethrau eu hunain;
enwau ysgithrog-finiog, fel yr elfennau,
enwau sy 'n gloywi'n y glaw ac yn sgleinio'n yr haul:
Pen yr Ole Wen, Foel-goch a Nant Ffrancon,
Tryfan, y Garn, Mynydd Perfedd a Charnedd y Filiast,
a'r llynnoedd hefyd, Llyn Bochlwyd a Llyn Idwal?
Ein hynafiaid a enwodd y rhain,
a'r rhain yw ein hetifeddiaeth, ein hunaniaeth ni.
**Alan Llwyd**

Anfonwch eich cerddi at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG.
ieuanwyn01@gmail.com

## Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Brysiwch wella**
Da ni'n falch o glywed bod Berwyn Williams, Stryd y Ffynnon adref ar ôl cael clun newydd yn ddiweddar. Gobeithio dy fod yn arfer efo'r baglau ac y byddi di'n well yn fuan.

**Penblwydd Hapus**
Penblwydd hapus iawn i Martin Hoyland, Gwernydd sydd wedi cael pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio dy fod wedi cael hwyl yn dathlu yn Llundain a mwynhau'r gwyliau. Bydd y pas bws yn ddefnyddiol iawn i deithio!

Bu Heledd Selwyn, Pen y Clwt yn dathlu pen-blwydd arbennig hefyd. Gobeithio dy fod wedi cael amser da Heledd a bod y dathliadau'n parhau. Croeso i'r Clwb 50!

**Busnes newydd**
Da ni'n dymuno'n dda i Michelle Florence sydd wedi cychwyn busnes newydd "Gwasanaethau Glanhau Michelle". Mae Michelle yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ac efo dros 25 mlynedd o brofiad yn y maes. Os oes gennych chi unrhyw fath o anghenion glanhau yna rhowch ganiad iddi i drafod. Gellir cysylltu â Michelle ar 07463511004 neu dros e-bost mfcleans@mail.co.uk Mae hi hefyd ar Instagram a Facebook.

**Taith Gerdded**
Fel rhan o brosiect LleChi LleNi Caban Gerlan, mae sawl taith gerdded yn cael eu trefnu eleni gyda help Partneriaeth Ogwen.

Roedd yr ail daith gerdded ar 21 Mawrth. Dan arweiniad Jess John, aeth grŵp o gerddwyr o gwmpas Moel Faban a chael cyfle i ddysgu am chwedlau a straeon o Ddyffryn Ogwen. Diolch i Jess am daith ddifyr ac i Heledd Quake a Sion am helpu gyda'r arwain. Diolch hefyd i bawb o Bartneriaeth Ogwen fu'n rhan o'r trefnu.

Mae mwy o deithiau cerdded ar y gweill, felly cadwch lygad ar gyfryngau cymdeithasol Caban Gerlan a Phartneriaeth Ogwen ar gyfer unrhyw ddiweddariadau.

## Caban Gerlan

**Caffi Trwsio**
Diolch i bawb ddaeth i Gaffi Trwsio'r Caban diwedd Mawrth. Doedd na ddim gymaint o brysurdeb yn yr un yma a'r tywydd garw di cadw rhai i ffwrdd mae'n siŵr. Er hynny, llwyddwyd i drwsio tegell, planced drydan, toaster a chwpwl o gotiau ac amser i gael paned a sgwrs. Bydd y Caffi Trwsio nesaf dydd Sul y 26 Ebrill (rhwng 11:00 ac 13:00).

**Grŵp Gwnïo**
Bydd y grŵp gwnïo nesaf ymlaen Nos Lun 27 Ebrill (18:30-20:30). Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwnïo o unrhyw fath neu'n meddwl dechrau gwnïo yna dewch draw am baned a sgwrs. Mae'n ofod cyfeillgar i gael syniadau, dysgu sgiliau newydd a chael ychydig o help ac ysbrydoliaeth os oes angen. Bydd y grŵp nesaf yn cael ei gynnal dydd Llun y 30ain o Fawrth. Os 'da chi awydd rhoi tro ar wnïo a dim efo peiriant, cofiwch fod modd benthyg peiriant o Lyfrgell Petha Pesda trwy archebu ar www.pethaupesda.myturn.com/library/

**Grŵp Gweu**
Bydd y grŵp gweu nesaf ar Nos Lun 13 Ebrill a hefyd Nos Lun 11 Mai. Os ydych chi'n brofiadol neu awydd trio gweu am y tro cyntaf, dewch draw am baned a sgwrs ac fe fydd rywun yn hapus i'ch dysgu.

**Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?**



**Hyfforddiant Gosod Crawiau**
Fel rhan o'r un cynllun, 'rydym hefyd yn cynnal hyfforddiant gosod crawiau llechi. Os oes gennych chi ddiddordeb yn sut mae'r ffiniau llechi arbennig yma'n cael eu gosod, yna beth am archebu lle ar y gweithdy yma o dal ofal cwmni Keohe. Bydd yn cael ei gynnal Ddydd Sadwrn a Dydd Sul 18 a 19 Ebrill. Bydd mwy o fanylion ar y cyfryngau cymdeithasol am y trefniadau a sut i archebu lle.
Mae'r gwaith yma yn rhan o gynllun LleChi LleNi: rhaglen buddsoddi cymunedol a ariennir gan y Gronfa Treftadaeth y Loteri a arweinir gan Gyngor Gwynedd. Mae'n rhan o gyfres o fuddsoddiadau yn deillio o ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.


Angladdau Enfys Funerals
Trefnwyr angladdau annibynnol yn cefnogi teuluoedd ar draws Gogledd Cymru i greu angladdau traddodiadol, gwyrdd, unigryw a phwrpasol.
Swyddfeydd ym Mangor a Bethesda.
Gwasanaeth amlosgiad uniongyrchol ar gael gydag arch, amlosgiad lleol, dychwelyd llwch a ffioedd proffesiynol wedi'u cynnwys £1,375
133 Stryd Fawr, Bangor • 57 Stryd Fawr, Bethesda
01248 351631 post@enfysfunerals.co.uk


# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**CANOLFAN CEFNFAES**
## Gyrfa Chwist
Ebrill 14 a 28
Mai 12 a 26
am 6.45yh.
Croeso i bawb

**FESTRI CARMEL LLANLLECHID**
## Te Bach
Dydd Llun
18 Mai
2.30 – 4.00yp
Croeso cynnes i bawb

**SEFYDLIAD Y MERCHED CARNEDDI**
Cyfarfod ar nos Iau cyntaf o'r mis yn Festri Capel Jerusalem am 7 o'r gloch
*Croeso cynnes i aelodau newydd*

**Festri Jerusalem**
## BORE COFFI
CYMORTH CRISTNOGOL
Sadwrn, Mai 9fed
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

**Festri Jerusalem**
## BORE COFFI
Sadwrn, 18 Ebrill
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00
Elw at y Capel

## Clwb Coffi Talybont
FESTRI BETHLEHEM
Boreau Llun, 10.30 – 12.00
Ebrill 27
Mai 11
Croeso cynnes i bawb

1969
M.HUGHES
A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,
Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.




# Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

**Cydymdeimlad**

Trist oedd clywed am farwolaeth Sharon Davies, 23 Bro Rhiwen, a hunodd yn Ysbyty Gwynedd ar 8 Mawrth ychydig ddyddiau cyn ei phenblwydd yn 65 oed. Sharon oedd merch ieuengaf Wil ac Eirwen Davies a symudodd i 23 Bro Rhiwen fel tenantiaid cyntaf y tŷ. Fe fu Sharon yn gweithio fel cymhorthydd mewn sawl ysgol dros y blynyddoedd yn ogystal ag yn ofalydd mewn cartrefi henoed. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar 1 Ebrill. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w mab, Derfel, ac i weddill ei theulu yn eu hiraeth.

**Clwb Rhiwen**

Prynhawn Mercher, 19 Chwefror cafwyd prynhawn diddorol yn y neuadd bentref yng nghwmni Ruth o 'Asynnod Eryri'. Cawsom hanes sefydlu elusen 'Asynnod Eryri' a'r gwaith y maen nhw'n ei wneud yn gwarchod asynnod ar Fferm Moel y Ci.

Ar 18 Mawrth daeth Tim Radford a Chris Lloyd, aelodau o Dîm Achub Mynydd Dyffryn Ogwen i'n plith a chafwyd hanes sefydlu'r Tîm Achub Mynydd a sgwrs ddiddorol am eu gwaith ar y mynyddoedd yn ogystal ag yn ein cymunedau. Eirwen a Nia oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad ym mis Chwefror gyda Lesley a Gwenda wrth y llyw ym mis Mawrth.

Bydd y Clwb yn cyfarfod nesaf yn y Neuadd ar 20 Mai pryd y cawn brynhawn yng nghwmni aelod o Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru.

Os hoffech chi ymuno â Chlwb Rhiwen 'rydym yn cyfarfod ar y trydydd prynhawn Mercher o'r mis am 14:00 yn y neuadd bentref. Croeso cynnes i chi ymuno â ni.

**Casglu sbwriel**

Mentrodd ambell enaid dewr allan i'r ddrycin fore Sul, 29 Mawrth i gasglu sbwriel hyd ymyl y lonydd yn y pentref. Yn anffodus ni fu modd gorffen y gwaith oherwydd y tywydd ond mae cynlluniau i fentro eto er mwyn cwblhau'r gwaith gan obeithio y bydd y tywydd wedi sefydlogi erbyn hynny! Os hoffech chi helpu cysylltwch â'r Cynghorydd Elwyn Jones os gwelwch yn dda.

**Merched y Wawr**

Mae'r gangen yn cyfarfod yn fisol ar yr ail ddydd Mawrth o'r mis ac mae'r rhaglen y flwyddyn hon wedi bod yn amrywiol a diddorol.

Ym mis Mawrth testun y cyfarfod oedd 'Pawb a'i drysor' a daeth nifer o'r aelodau a chreiriau i'w dangos ynghyd â rhannu'r stori tu ôl i bob gwrthrych.

Yn dilyn y diddordeb diweddar yn Neiseb Heddwch Merched Cymru 1923 rhannodd

# YSGOL RHIWLAS

gan Nel Iolen Jones-Roberts, Blwyddyn 5

**Capel y Ffynnon**

Diolch yn fawr iawn i aelodau Capel y Ffynnon, Bangor, am ymweld â'r ysgol er mwyn cynnal sesiwn arbennig am y Pasg.

**Croesawu i'r byd**

Fel ysgol hoffem longyfarch Miss Williams ar enedigaeth ei merch fach. Croeso i'r byd Beti!

**Cydymdeimlo**

Fel ysgol rydym ym cydymdeimlo gyda Mrs Alty, athrawes Cyfnod Allweddol 2, yn dilyn ei phrofedigaeth ddiweddar.

**Croeso nôl**

Rydym yn hapus iawn i groesawu Mrs Medway yn ôl atom yn dilyn ei chyfnod mamolaeth.



**Gala Nofio**

Llongyfarchiadau mawr i dîm nofio Ysgol Rhiwlas a fu'n cystadlu mewn gala nofio ym Mangor. Da iawn Cadi, Will, Ana, a Nel – mae'r ysgol yn falch iawn ohonoch.



**Gweithdy cerddoriaeth**

Roedd Ysgol Rhiwlas yn llawn bwrlwm yn ddiweddar yn dilyn gweithdy cerddoriaeth arbennig dan arweiniad Alis a James. Dan eu harweiniad bu'r plant yn dysgu am wahanol rythmau, a chawsant gyfle i greu perfformiad arbennig ar ddiwedd y sesiwn.

Braint oedd cael croesawu dau gerddor mor dalentog i'n plith – arferai Alis fod yn Delynores Frenhinol.

Linda ei hanes yn chwilio am enwau rhai o ferched y teulu. Llwyddodd i adnabod enwau ac eglurodd i'r aelodau sut i fynd ati i gynnal gwaith ymchwil yn y maes.

Er bod gwrthrych Kate, sef buwch cerameg, wedi gweld dyddiau gwell er hynny roedd yn werthfawr iddi gan ei bod yn ei hatgoffa o aelod agos ac annwyl o'r teulu.

Dangosodd Carol freichled a dderbyniodd gan fodryb arbennig. Ag Iran yn y newyddion yn ddyddiol ar hyn o bryd dangosodd Carys eitem oedd wedi ei chasglu wrth deithio yn y wlad honno yn y saithdegau. Diddordeb Mari yw gwnïo ac, ar hap, aeth heibio siop nwyddau ail law a gwelodd hen beiriant gwnïo yno. Prynodd y peiriant am ei fod yn ei hatgoffa o'i phlentyndod a daeth â llun ohono i'w ddangos i'r aelodau.



**Yma o hyd!**
Er mai siom a brofodd tîm pêl-droed Cymru yng Nghaerdydd ddiwedd Mawrth, mae'r ddraig yn dal yn fyw ac yn iach o hyd fel y gwelwch chi! Cafodd Gareth hwyl garw ar baentio'r un arbennig yma yn y sesiwn Pot a Phaent yn y Neuadd yn ddiweddar. Mae Gareth yn aelod ffyddlon o sawl cymdeithas yn y pentref ac yn wirfoddolwr allweddol i'r Neuadd.

## Capel Shiloh Newydd Rhiwlas

Dyma fanylion y gwasanaethau a gynhelir ar y Suliau canlynol yn y Neuadd yn ystod yr wythnosau nesaf:
**19 Ebrill** – Parch Aled Davies
**26 Ebrill** – Parch Ddr Ian Morris
**3 Mai** – Dim gwasanaeth
**10 Mai** – Parch Olaf Davies
**17 Mai** – Parch Ddr Jennie Hurd am 17:00 yn Shiloh Newydd Tregarth.
Croeso cynnes i bawb.



## Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi cynhaliodd y gangen fore coffi llwyddiannus. Roedd yn hyfryd gweld cynifer o bobl yn dod ynghyd i fwynhau'r achlysur.

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddiweddar. Ail etholwyd Beca Roberts yn Gadeirydd, gyda Paul Rowlinson yn Is-gadeirydd, Gwynfor Rowlinson yn Ysgrifennydd ac Einir Williams yn Drysorydd. Y wraig wadd oedd Siân Gwenllian, yn siarad â ni am y tro olaf fel Aelod Senedd dros Arfon. Gyda'r dull newydd o ethol Aelodau i'r Senedd bydd Dyffryn Ogwen yn rhan o etholaeth fawr newydd Bangor Conwy Môn. Byddwn yn ethol chwe Aelod yn yr etholaeth hon, gyda Rhun ap Iorwerth yn arwain tîm y Blaid. Bydd Siân Gwenllian yn arwain y tîm yn etholaeth newydd Gwynedd Maldwyn.

Bu Siân yn myfyrio ar ei deng mlynedd o wasanaeth i etholaeth Arfon ers iddi gael ei hethol yn 2016. Soniodd am ei phrofiadau yn y rôl, yr heriau a'r pethau y mae wedi llwyddo i'w cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau Ysgol Feddygaeth ym Mhrifysgol Bangor, sy'n golygu bod ein pobl ifanc sydd am gael gyrfa fel meddyg yn gallu hyfforddi yn lleol. Siân yw llefarydd y Blaid ar dai a soniodd am beth yr hoffai ei gyflawni i helpu i sicrhau cartref addas i bawb os bydd Plaid Cymru yn arwain Llywodraeth nesaf Cymru.

Hoffem ddiolch yn fawr i Siân am ei gwaith caled dros Ddyffryn Ogwen dros y blynyddoedd, a dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.


SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

## Cyfle i Wirfoddoli

### Ydych chi'n gallu gwrando ar bobl eraill?

- **Gweledigaeth y Samariaid yw lleihau nifer y bobl sy'n marw trwy hunanladdiad, ond rydyn ni'n cynnig cymorth emosiynol i bawb.**
- **Rydyn ni'n chwilio am ragor o wirfoddolwyr, yn arbennig siaradwyr Cymraeg, i ymuno â'n cangen ym Mharc Menai, Bangor.**
- **Bydd ein hyfforddiant cyfrwng Cymraeg nesaf yn dechrau ar 6 Mehefin 2026 a bydd cwrs arall yn dechrau ym mis Medi.**

**Am ragor o wybodaeth:** **Ffoniwch 01248 674984 neu e-bostiwch recriwtio@samariaidbangor.org**

**Gwefan: www.samariaidbangor.cymru**


# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Cartref Newydd**
Dymuniadau gorau i John ac Erin ar symud i'w cartref newydd ar Ffordd Coetmor. Maent newydd symud yn ôl o Gaerdydd yn ddiweddar. Gobeithio y byddant yn hapus.

**Gwellhad Buan**
Gobeithio bod Denise Roberts, Ffordd Llanllechid yn gwella wedi triniaeth yn ddiweddar yn yr ysbyty.




## Carmel, Llanllechid

**Cofion**
Rydan ni'n anfon ein cofion at aelodau sydd heb fod yn dda yn ddiweddar sef Mrs Lynda Pritchard, Mr Charles Doyle, a Mr Gwilym Evans. Mae sawl aelod o'r Clwb Gwau yn ddi-hwyl ar hyn o bryd hefyd. Rydan ni'n anfon ein dymuniadau gorau at Mrs Glenda Ellis, Mrs Grace Sewell, Mrs Ann Edwards, a Mrs Beryl Brown. Mae Glenda wedi symud i mewn i gartref preswyl yn ymyl cartref ei mab Stephen a'i merch Susan yn ardal Grantham, Swydd Lincoln ac mae Beryl wedi cael mynd adref ar ôl amser maith yn cynnwys cyfnodau yn Ysbyty Gwynedd ac yng Nghartref Plas Ogwen. Dymunwn y gorau iddyn nhw i gyd, yn ogystal â Phasg hapus a bendithiol.

**Cyhoeddiadau**
Fore Sul am 10:30 Ysgol Sul
Nos Wener am 18:30 Clwb Dwylo Prysur
Pnawn Llun 14:00 – 16:00 Clwb Gwau (pob pythefnos)
20 Ebrill Te Bach 14:30 – 16:00

Oedfaon Sul am 17:00
19 Ebrill – Mr Richard Jones
26 Ebrill – Parchg R O Jones
3 Mai – Parchg Casi Jones
10 Mai – Sul Cymorth Cristnogol
17 Mai – Parchg Iwan Llewelyn Jones



**Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur**
Ar Sul y Blodau, cafodd y plant a'r ieuenctid groesau o ddail palmwydd i gofio'r ymdaith i Jerwsalem ar ddechrau'r wythnos fawr. Cafodd y croesau hyn eu gwneud â llaw gan bobl Masasi yng ngwlad Tansanïa, Affrica. Mi fyddan nhw'n rhoi'r elw at brynu nwyddau angenrheidiol ar gyfer eu bywydau bob dydd.

## CLWB HANES RACHUB

Cafodd aelodau'r Clwb Hanes noson ddifyr yn y Clwb Criced y mis diwethaf yn clywed am rai o'n hartistiaid lleol gan dri siaradwr gwadd. Y cyntaf i siarad oedd Karen Roberts, artist lleol llwyddiannus a chyn-athrawes Gelf. Wedi cwblhau ei Lefel A yn Ysgol Dyffryn Ogwen aeth Karen ymlaen i wneud cwrs Sylfaen a chael ei hysbrydoli gan un o'r tiwtoriaid – Peter Prendergast. Yna astudio Tecstiliau yng Nghaerdydd cyn cwblhau'r radd yn Taunton, Gwlad yr Haf. Cafodd swydd fel dylunydd patrymau yn Llundain gan ddylunio i gwmnïau Gap, Valentino, Victoria Street a Laura Ashley. Erbyn hyn mae Karen yn mwynhau crwydro, lluniadu a gorliwio'r lliwiau sydd yn y golygfeydd hyfryd ar garreg ei drws, gan arddangos a gwerthu ei gwaith yn Zip World Bethesda, Artworks2 ym Metws y Coed, Galeri Carwsel Llanfairfechan, a Galeri Benard Llandudno. Llwyddodd i gael arddangosfeydd sylweddol yn Oriel Plas Glyn y Weddw ac Oriel Môn.

Yr artist Bryan Griffiths oedd y nesaf i siarad, mae'n athro celf ac aelod o uwch-dîm Ysgol Bodedern. Soniodd yntau am ddylanwad pellgyrhaeddol Peter Prendergast ar gymaint o artistiaid fel Darren Hughes, Bryan ei hun a'r diweddar Iwan Parry. Roedd Iwan Parry'n artist gwych, yn dysgu yng Ngholeg Menai ac yn creu cynfasau mawr o olygfeydd ag iddynt naws arallfydol. Bu'n byw'n dawel yn stryd Fronchwith, Caellwyngrydd am flynyddoedd gan ganolbwyntio ar ei waith celf, ond yn drist iawn bu farw'n eithaf diweddar ag yntau ond yn 55 mlwydd oed. Colled enfawr i'r byd celf. Soniodd hefyd am yr artist John Thomas Parry (ap Idwal) a aned yng Nghapel Coch (1853) ac a symudodd i Garneddi ar ôl priodi. Yn dad i ddeg o blant, gweithiodd yn y chwarel, gan ddarganfod amser i astudio, a hefyd ymarfer celf yn ei amser rhydd. Dechreuodd werthu ei waith i ymwelwyr, ac yn ôl y sôn daeth teulu'r Penrhyn yn ymwybodol ohono gan roi cymorth ariannol iddo. Trafododd Bryan hefyd gyfraniad Martin Morley sy'n byw yn Gerlan ac yn cofnodi mewn lluniau, olygfeydd, ymysg pethau eraill, o siopau'r Stryd Fawr - gan ail ymweld â'r siopau hyn wrth iddynt newid dwylo, - cofnod pwysig iawn o'r ardal.

Cawsom wybodaeth gan Robyn Meredydd, ein trydydd siaradwr, am y gwaith sy'n mynd ymlaen yn 'Yr Hen Bost' Bethesda. Hi sy'n gofalu am yr arddangosfeydd a fydd yno – nid unrhyw beth parhaol, ond cyfres o arddangosfeydd dros dro fydd y rhain, yn portreadu hanes a bywyd pobol yr ardal. Mae hi wedi llwyddo i gael chwe llun mawr o waith E.M. Thompson ar gyfer un o'r arddangosfeydd. Hon oedd yr artist a greodd luniau manwl iawn o chwarelwyr wrth eu gwaith, yn ogystal â'u celfi a'u hoffer i gyd. Bydd mwy o fanylion am gynnwys y sgyrsiau hyn ar gael ar ein gwefan cyn bo hir.

Cofiwch am gyfarfod ola'r tymor - cwis a ffilm fer – Nos Fercher, 29 Ebrill am19:00. Bydd gwobrau hael i'r timau buddugol - £50 i'r cyntaf, £30 i'r ail a £15 i'r trydydd!

# YSGOL LLANLLECHID



**Pencampwyr TAG 2026: llwyddiant Ysgubol**
Llongyfarchiadau anferth i'r ddau dîm a gynrychiolodd yr ysgol yn y twrnamaint TAG yn ddiweddar! Roedd hi'n bleser gweld ein disgyblion yn cystadlu; roedd pob un ohonynt yn dangos ysbryd cystadleuol iach, ymroddiad di-ffael, a sgiliau technegol gwych ar y cae. Mae'r ffaith bod gennym gymaint o dalent yn golygu bod safon y chwarae wedi bod yn eithriadol o uchel drwy gydol y dydd.

Uchafbwynt y diwrnod oedd gweld un o'n timau yn cael eu coroni'n Bencampwyr TAG 2026! Rydym hefyd yn ymfalchïo'n fawr yn y ddau chwaraewr o Lanllechid a enwyd yn chwaraewyr y twrnamaint – camp aruthrol sy'n tystio i'w gwaith caled. Diolch o galon i Miss Elin am ei hyfforddiant a'i chefnogaeth i'r holl blantos.

Nawr, mae'r tîm buddugol yn paratoi i fynd ymlaen i Aberystwyth ar gyfer y twrnamaint cenedlaethol yn mis Mehefin.

---

**Ein Taith i Pentref Peryglon**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 ddiwrnod gwefreiddiol a llawn gwybodaeth yn Pentref Peryglon yn ddiweddar. Yn ystod yr ymweliad dysgodd y plant sut i gadw eu hunain yn ddiogel mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cyffrous, gan gynnwys diogelwch ar y ffordd, ger y dŵr, ac yn y cartref. Roedd yn gyfle gwych i ymarfer sgiliau pwysig mewn amgylchedd realistig, o ddysgu am beryglon trydanol i ddeall sut i helpu mewn argyfwng.

Mwynhaodd pawb y profiad yn fawr, ac rydym yn hyderus bod ein dysgwyr rŵan yn llawer mwy ymwybodol o sut i wneud dewisiadau doeth a mwynhau anturiaethau yn ddiogel!

**Diwrnod y Llyfr**
Llanwyd yr ysgol â chymeriadau lliwgar o fyd llenyddiaeth wrth i ni ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni. O'r gwisgoedd creadigol i'r trafodaethau brwd am hoff awduron, roedd hi'n amlwg bod darllen yn parhau i fod yn ganolog i fywyd y disgyblion yn Llanllechid. Cafwyd gweithgareddau amrywiol drwy'r dydd i hybu llythrennedd ac i rannu straeon, gan atgoffa pawb bod llyfr da yn gallu agor drysau i fydoedd hollol newydd. Roedd y llawenydd ar wynebau'r plant wrth rannu eu hoff lyfrau yn bleser i'w weld.

**Bingo Pasg**
Roedd y Clwb Criced yn llawn bwrlwm ar gyfer y Bingo Pasg eleni, digwyddiad sydd wastad yn tynnu'r gymuned ynghyd. Roedd yr awyrgylch yn drydanol wrth i deuluoedd obeithio am linell neu ddwy neu dŷ llawn i ennill un o'r nifer fawr o wyau siocled oedd ar gael. Mae'r digwyddiad hwn nid yn unig yn gyfle i godi arian gwerthfawr i'r ysgol, ond mae hefyd yn dangos y gefnogaeth anhygoel y mae'r rhieni a'r gymuned leol yn ei rhoi i'n disgyblion. Diolch i'r Cyfeillion am drefnu'r noson ac i'r clwb Criced am y lleoliad ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson. Casglwyd cyfanswm o £300 tuag at gefnogi disgyblion Ysgol Llanllechid boed yn adnoddau neu brofiadau gwerthfawr.

**Diwrnod y Trwynau Cochion**
Dangosodd y disgyblion eu caredigrwydd a'u haelioni wrth gefnogi Diwrnod y Trwynau Cochion. Trwy wisgo rhywbeth coch neu ddod â chyfraniad bach, fe lwyddon nhw i godi swm sylweddol i helpu pobl sy'n wynebu anawsterau yma yng Nghymru ac ar draws y byd. Mae digwyddiadau fel hyn yn gyfle gwych i drafod eu rhan fel dinasyddion byd-eang moesegol a deall sut gall eu hymdrechion bach nhw wneud gwahaniaeth mawr i fywydau eraill. Casglwyd £205.97.

**Gala Nofio**
Llongyfarchiadau mawr i bawb a gynrychiolodd yr ysgol yn y Gala Nofio ddiweddar a dod yn ail o fewn ein hardal! Roedd ymdrech, dyfalbarhad a gwaith tîm ein disgyblion yn y pwll yn arbennig i'w gweld. P'un ai yn ennill rasys neu'n cwblhau eu hydoedd cyntaf mewn cystadleuaeth, roedd ysbryd cefnogol y plant tuag at ei gilydd yn destun balchder. Mae chwaraeon yn rhan hanfodol o ddatblygiad corfforol a hyder ein disgyblion, ac roedd yr ysgol yn cael ei chynrychioli gyda pharch a brwdfrydedd.



**Hwyl a Sbri ar yr Iard**
Mae cyffro mawr yn yr ysgol wrth i ni drawsnewid ein hiard gyda phaent newydd llachar! Roedd y disgyblion wedi gofyn am fwy o gemau buarth, ac rydym wrth ein bodd yn gweld eu syniadau yn dod yn fyw. Nid yn unig y mae'r iard yn edrych yn anhygoel, ond mae bellach yn lle gwych i'r plant weithio ar eu medrau rhifedd tra eu bod yn chwarae. Trwy ddefnyddio'r ardaloedd newydd, mae'r disgyblion yn gallu cymhwyso eu medrau corfforol mewn ffyrdd creadigol a heriol. Yn bwysicaf oll, mae'r iard yn llawn chwerthin wrth i bawb fwynhau a chael llawer o hwyl gyda'u ffrindiau!

**Beicio**
Mae lonydd yr ardal wedi bod ychydig yn brysurach - ac yn llawer mwy diogel yn ystod yr wythnosau diwethaf wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 gwblhau hyfforddiant diogelwch y ffyrdd. Hyd yma, mae dau grŵp allan o dri eisoes wedi cwblhau'r cwrs, gan ddangos brwdfrydedd mawr a sgiliau arbennig ar eu beiciau. Unwaith yr oedd yr hyfforddwyr yn hyderus bod y sylfaen yn gadarn yn ystod y sesiynau ar iard yr ysgol, cafodd y disgyblion fynd allan i brofi eu hunain ar y lonydd lleol. Mae'n wych gweld y genhedlaeth nesaf o feicwyr yn magu hyder ac yn dysgu sut i fwynhau'r awyr agored yn ddiogel. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi llwyddo hyd yma, a phob lwc i'r grŵp olaf!


**Ffair Iechyd a Lles**
Cafwyd prysurdeb yn y neuadd yn ddiweddar wrth i ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 gynnal Ffair Iechyd a Lles arbennig. Roedd y digwyddiad yn ffordd gyffrous o gloi eu thema ddiweddaraf ar beth mae'n ei olygu i fyw'n iach, gan rannu eu dysgu gyda gweddill yr ysgol.

Mewn awyrgylch llawn cyffro, croesawodd y disgyblion hŷn blant Blynyddoedd 2, 3 a 4 i flasu amrywiaeth o weithgareddau ymarferol, egnïol, creadigol a hynod ddiddorol. Roedd y neuadd wedi'i thrawsnewid yn ganolfan llesiant, gyda stondinau lliwgar wedi'u dylunio a'u rhedeg yn gyfan gwbl gan y plant eu hunain. Diolchwn i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd.

**Archifdy**
Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 2 ymweliad addysgiadol gwerthfawr yn ddiweddar gan y gwasanaeth archifau lleol. Yn ystod y sesiwn, cafodd y disgyblion gyfle i deithio'n ôl mewn amser a darganfod sut oedd bywyd yn Bethesda flynyddoedd yn ôl.

Canolbwyntiodd yr ymweliad ar oes Fictoria, gan alluogi'r plant i ddeall pa mor wahanol oedd bywyd bob dydd o'i gymharu â'r presennol. Trwy ddefnyddio ffotograffau hanesyddol ac arteffactau, archwiliodd y disgyblion sut roedd pobl ym Methesda yn byw, yn gweithio ac yn treulio eu hamser yn ystod y 19eg ganrif.

# CROESAIR





**AR DRAWS**

6 Cael gwared â'r llanast wrth dwtio (7)

7 O dacw hi ar y ffordd yn sydyn i'n gwlychu (5)

8 Darnau o bapur neu fetel i'w taflu (5)

10 Rhaid sythu'r cebl dan y gwely i'r trydan gael ei chynhesu (7)

12 Bod yn ymyl un yn glos a theyrngar (6)

13 Achos da (6)

15 Mannau cyflafan erchyll y Rhyfel Byd Cyntaf (1,5)

17 Swllt a chwe cheiniog ers talwm ar lafar (6)

20 Cadw at orchymyn, a'i wneud heb gwyno (7)

22 Yn don du yn llifo'n llyfn ac yn dod a phawb at ei gilydd (5)

24 'N ôl i oes arall, a'r rhain sy'n dystion sut yr oedd hi (5)

25 Simsan, bron a syrthio. Gwae ing o'r fath (7)

**I LAWR**

1 Criw o greaduriaid gwlyb yn symud efo'i gilydd (4)

2 Rêl niwsans, gall achosi poen yn rhan ucha'r corff (3,3)

3 Mae cwrt fel hyn o flaen y gôl, ond nid dedfryd llys barn ydyw (5)

4 Hogia ifanc yn cario cyllyll efallai (6)

5 Amser brecwast fel arfer (4)

8 Mewn swyddfa mae'r cynganeddwr yn dysgu "sut i ffeilio a - - - - - - - " (7)

9 Camp Elfyn Evans (5)

11 Syml a dieuog ac yn swnio'n ddianaf (7)

14 Ffurf o farddoniaeth (5)

16 Diodydd afal ac oren neu unrhyw ffrwythau (6)

18 Prif Weinidog Cymru

19 Dili-dalio wrth dynnu rhywbeth ar eich ôl (5)

21 Dyffryn y Sais hedegog yn ein hynys fwyaf (4)

23 Safle'r cliw yma ar i lawr (4)

**ATEBION CROESAIR MAWRTH 2026**

**AR DRAWS** 1 Soda, 3 Hyll, 7 Ffrwythlon, 8 Llawr, 9 Cyfansoddiad, 10 Llwynog, 13 Therapi, 15 Sylwebyddion, 19 Tric, 20 Siocledi, 21 Sws, 22 Buan

**I LAWR** 1 Strôc, 2 Dwy Afon, 3 Hollti, 4 Llawn Dop, 5 Clên, 6 Annoeth, 11 Wystrys, 12 Gwersi, 14 Reifflau, 16 Lwcus, 17 Yfodd, 18 Nodyn

Dyma'r rhai lwyddodd i gwblhau y croesair yn gywir – llongyfarchiadau i chi: Stella Dafis, Rachub; Elsi Prytherch, Waen Wen; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Barbara Jones, Talybont; Huw a Gwenno, Gerlan; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Dafydd Roberts, Rhiwlas; Judith Hughes, Llangoed; John Ffrancon Griffith, Abergele; Wendy Eccles, Llanllechid; Gill King, Mynydd Llandygai; Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Tregarth; Anne Smith, Doris Shaw, Margaret Williams, Emyr Roberts, Rita Bullock, Bethesda; Iona Williams, Llanddulas; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Gwenda Roberts, Rhosmeirch

Mae'r clod a'r wobr y mis yma yn mynd i Anne Smith, 32 Bryntirion, Bethesda, Gwynedd LL57 3NG

Atebion erbyn 1 Mai, 2026 fan bellaf *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Ebrill', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD